



Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Arolwg 2023 o
Etholaethau Seneddol

Cynigion Cychwynnol

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.


Cafodd y ddogfen hon ei gyfieithu gan Trosol.

© Hawlfraint y Goron 2021 – Gallwch aildddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i: <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu anfonwch e-bost: psi@nationalarchives.gov.uk Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at y Comisiwn yn: cffg@ffiniau.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael o'n gwefan hefyd yn: www.comffin-cymru.gov.uk

Argraffiad 1af Medi 2021



Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ('y **Comisiwn**') yn gyfrifol am arolygu ffiniau etholaethau seneddol yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cynigion cychwynnol y Comisiwn ar gyfer etholaethau seneddol yng Nghymru. Dechrau proses arolygu'r Comisiwn yw hwn, nid y diwedd. Ein barnau cychwynnol yw'r rhain. Edrychwn ymlaen, yn ystod ein proses arolygu, i glywed gan bobl Cymru ynglŷn â sut gellid newid a diwygio'r cynigion hyn.

Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU na fyddai'n gweithredu argymhellion arolwg 2018. Yn lle hynny, cyhoeddodd y byddai'n cyflwyno Bil i ddiwygio'r rheolau ar gyfer cynnal arolygiadau ffiniau. Cyflwynwyd Bil Etholaethau Seneddol 2019–21 ar 19 Mai 2020. Pasiodd y Bil ei gamau seneddol terfynol ar 26 Tachwedd 2020 a derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 14 Rhagfyr 2020. Gwnaeth y Bil newidiadau arwyddocaol i Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 ('y **Ddeddf**'). Rhoddodd y gorau i arolwg 2018, a chanslo cynlluniau felly i leihau maint Tŷ'r Cyffredin i 600 o seddau. Mae maint Tŷ'r Cyffredin yn parhau'n sefydlog ar 650 o seddau. Fodd bynnag, mae'r dull o gyfrifo'r dyraniad seddau rhwng gwledydd y DU yn parhau'n seiliedig ar y gyfran o etholwyr cofrestredig y DU ym mhob gwlad. Mae'r cyfrifiad hwn yn arwain at ostyngiad yn nifer yr etholaethau seneddol yng Nghymru – o'r 40 o etholaethau presennol i 32. Mae'n golygu'r newid mwyaf arwyddocaol i etholaethau Cymru mewn canrif.

Mae'n rhaid cwblhau'r arolwg erbyn 1 Gorffennaf 2023, sydd yn seiliedig ar nifer yr etholwyr cofrestredig ar 2 Mawrth 2020. Bydd argymhellion y Comisiwn yn cael eu rhoi ar waith gan y 'rheol awtomatigrwydd'. Fel y cyfryw, ni fydd yn ofynnol i'r argymhellion gael cymeradwyaeth seneddol. Mae'n rhaid i'r argymhellion terfynol gael eu rhoi ar waith fel yr amlinellwyd yn adroddiad terfynol y Comisiwn. Mae'r cam ymgynghori â'r cyhoedd wedi ei ddiwygio i alluogi i wrandawiadau cyhoeddus

gael eu cynnal yn ystod y cyfnod ymgynghori eilaidd – hynny yw, yn hwyrach nag a oedd yn flaenorol. Bellach, mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer pump o etholaethau gwarchodedig ledled y DU. Yr unig etholaeth yng Nghymru nad yw'n ddarostyngedig i weithrediad cwota etholiadol y DU, ac sydd wedi'i gwarchod felly neu wedi'i heithrio o'r arolwg, yw Ynys Môn.

Wrth ddatblygu ei cynigion, mae'r Comisiwn, lle bo modd, wedi rhoi ystyriaeth i ffiniau seneddol a llywodraeth leol presennol. Mae hefyd wedi ceisio osgoi neu leihau torri cysylltiadau lleol. Ar brydiau, mae'r Comisiwn wedi rhoi sylw i ystyriaethau daearyddol arbennig.

Mae'r Comisiwn yn dechrau ei ymgynghoriad cychwynnol yn awr. Gall aelodau'r cyhoedd, grwpiau a sefydliadau gyflwyno cynrychiolaethau ysgrifenedig ar y cynigion cychwynnol a ddisgrifir yn y ddogfen hon o 8 Medi 2021 i 3 Tachwedd 2021.

Bydd y Comisiwn yn edrych yn ofalus ar bob cynrychiolaeth a ddaw i law i weld a ellir diwygio a gwella'r cynigion cychwynnol. Fodd bynnag, bydd rhaid i'r Comisiwn bwyso a mesur y materion a godir mewn cynrychiolaethau yn erbyn yr holl ffactorau eraill y mae'n rhaid i ni eu hystyried, yn ogystal â'r cyfyngiadau a bennwyd yn y ddeddfwriaeth.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r Comisiynwyr – Mr Huw Vaughan Thomas CBE a Mr Sam A Hartley – am eu cyfraniadau amhrisiadwy, yn ogystal â'r Ysgrifennydd a swyddogion eraill y Comisiwn am eu cymorth yn ein gwaith. Hoffwn ddiolch hefyd i'n haseswyr statudol yn yr Arolwg Ordnans a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol am eu cymorth a'u cyfraniadau.

Meistres Ustus Jefford DBE


Dirprwy Gadeirydd

Mae'r tudalen hon yn wag yn fwriadol

Cynnwys

Pennod 1	Cyflwyniad	1
Pennod 2	Meini prawf ar gyfer arolygu etholaethau seneddol	2
	Cymhwyso darpariaethau	2
	Deddf Etholaethau Seneddol (1986) (fel y'i diwygiwyd)	2
	Cylch arolygu	2
	Data etholwyr ar gyfer arolwg 2023	2
	Dosbarthiad etholaethau	2
	Amrediad etholiadol statudol	3
	Ffiniau llywodraethol leol perthnasol	3
	Ffactorau statudol eraill	3
	Ystyriaethau daearyddol arbennig	4
	Ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau lleol	4
	Ffiniau etholaethau presennol	5
	Yr anghyfleustra mae newidiadau o'r fath yn ei greu	5
	Cydawaith yr ystyriaethau	5
	Ffactorau na fydd y Comisiwn yn eu hystyried	6
	Effaith ar ganlyniadau etholiadau yn y dyfodol	6
	Ffiniau llywodraeth leol newydd	6
	Newidiadau i niferoedd etholwyr ar ôl 2 Mawrth 2020	6
	Enwi a dynodi etholaethau	6
	Enwi	7
	Dynodi	7
Pennod 3	Yr etholaethau presennol	9
	Nifer yr etholwyr	9
	Maint etholaethau	9
	Patrwm etholwyr	9
Pennod 4	Crynodeb o'r cynigion	10
Pennod 5	Cynigion cychwynnol	13
Pennod 6	Cynigion yn fanwl	14
	Aberafan Porthcawl	17
	Aberconwy	20
	Alyn and Deeside (Alun a Glannau Dyfrdwy)	23
	Blaenau Gwent and Rhymney (Blaenau Gwent a Rhymni)	26
	Brecon and Radnor (Aberhonddu a Maesymfed)	29
	Bridgend (Pen-y-bont)	32
	Caerfyrddin (Carmarthen)	35
	Cardiff Central (Canol Caerdydd)	38
	Cardiff North (Gogledd Caerdydd)	41
	Cardiff South and Penarth (De Caerdydd a Phenarth)	43
	Cardiff West (Gorllewin Caerdydd)	46
	Ceredigion Preseli	48
	Clwyd	51
	Delyn	54
	Dwyfor Meirionnydd	57

	Islwyn	60
	Llanelli	63
	Merthyr Tydfil and Aberdare (Merthyr Tudful ac Aberdâr)	66
	Mid and South Pembrokeshire (Canol a De Sir Benfro)	69
	Monmouthshire (Sir Fynwy)	72
	Montgomeryshire and Glyndŵr (Maldwyn a Glyndŵr)	75
	Newport East (Dwyrain Casnewydd)	78
	Newport West and Caerphilly (Gorllewin Casnewydd a Chaerffili)	81
	Pontypridd	84
	Rhondda	87
	Swansea Central and North (Canol a Gogledd Abertawe)	90
	Swansea East and Neath (Dwyrain Abertawe a Chas-tell-nedd)	93
	Swansea West and Gower (Gorllewin Abertawe a Gŵyr)	96
	Torfaen	99
	Vale of Glamorgan (Bro Morgannwg)	101
	Wrexham (Wrecsam)	103
	Ynys Môn	106
Pennod 7	Manylion cyhoeddi	108
	Cyhoeddi'r cynigion cychwynnol	108
	Mannau adneuo	108
Pennod 8	Y cyfnod ymgunghori cychwynnol	
	8 Medi 2021 i 3 Tachwedd 2021	109
	Cyhoeddi cynrychiolaethau	110
	Y Gymraeg	111
Pennod 9	Gwybodaeth ychwanegol	112
	Hawlfraint y Goron	112
	Ymholiadau	112
Atodiad 1	Cynigion cychwynnol: etholaethau	113
Atodiad 2	Mynegai o'r etholaethau presennol	115
Atodiad 3	Mannau adneuo	116



1. Ar 5 Ionawr 2021, cyhoeddodd y Comisiwn ddechrau arolwg 2023 o etholaethau seneddol yng Nghymru, yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd). Gellir gweld crynodeb o'r fframwaith statudol perthnasol ac ymagwedd gyffredinol y Comisiwn at yr arolwg yn nogfen y Comisiwn 'Canllaw i'r Arolwg 2023', sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan y Comisiwn: www.comffin-cymru.gov.uk.
2. Mae'r Comisiwn yn gorff cyhoeddus anadrannol annibynnol a diduedd sy'n gyfrifol am arolygu ffiniau etholaethau seneddol yng Nghymru. Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Cadeirydd, sy'n Llefarydd Tŷ'r Cyffredin; y Dirprwy Gadeirydd, Meistres Ustus Jefford DBE; a dau Gomisiynydd arall, sef Huw Vaughan Thomas CBE a Sam Hartley. Mae Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yn aelod ac yn Gadeirydd yn rhinwedd ei swydd, ond nid yw'n cymryd unrhyw ran yng ngwaith y Comisiwn. Cefnogir y Comisiwn gan Ysgrifennydd, Mrs Shereen Williams MBE OStJ, ac ysgrifenyddiaeth. Mae'r Dirprwy Gadeirydd a'r ddau Gomisiynydd wedi ystyried yr adroddiad hwn, a'i gymeradwyo.
3. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi ei gynigion cychwynnol nawr er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd arno. Mae'r cynigion hyn yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r ddeddfwriaeth berthnasol a chymhwyso ffigurau etholiadol Mawrth 2020.

Pennod 2:

Meini prawf ar gyfer arolygu etholaethau seneddol.

Cymhwyso darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd)

- Mae'r meini prawf a ddisgrifir yn y bennod hon yn gymwys i'r arolwg o etholaethau seneddol.

Cylch arolygu

- Mae gofyniad yn Neddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd) ('y Ddeddf') yn datgan bod rhaid i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad ar arolwg o'r holl etholaethau yng Nghymru erbyn 1 Gorffennaf 2023, adroddiad arall erbyn 1 Hydref 2031, ac adroddiad bob wyth mlynedd ar ôl hynny.

Data Etholwyr ar gyfer Arolwg 2023

- Mae'r Ddeddf yn pennu pa ffigurau etholwyr y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu defnyddio wrth gynnal arolwg. Ar gyfer Arolwg 2023, mae'n ofynnol i'r Comisiwn ddefnyddio cyfanswm nifer yr unigolion yr oedd eu henwau'n ymddangos ar y gofrestr etholiadol gyhoeddedig ar 2 Mawrth 2020.
- Mae'r Comisiwn wedi cael y ffigurau etholwyr hyn ar gyfer arolwg 2023 o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae wedi cyhoeddi'r ffigurau hyn ar ei wefan: www.comffin-cymru.gov.uk/adolygiadau/01-21/arolwg-2023.

Dosbarthiad Etholaethau

- Mae'r Ddeddf yn mynnu bod nifer benodedig o 650 o etholaethau ar gyfer y Deyrnas Unedig (DU) gyfan. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu fformiwla fathemategol i bennu faint o etholaethau y dylid eu dyrannu i bob un o bedwar rhan y DU (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon), yn seiliedig ar eu ffigurau etholwyr.
- Yn unol â'r fformiwla honno, mae 32 o etholaethau wedi'u dyrannu i Gymru o dan y Ddeddf. Mae'n rhaid i'r Comisiwn, felly, wneud argymhellion, yn ei adroddiad 2023, sydd wedi'u cynllunio i leihau

nifer yr etholaethau seneddol yng Nghymru o'u nifer bresennol 40. Mae'n rhaid i etholaethau Cymru fod yn gyfan gwbl o fewn Cymru, ac ni allant gynnwys ardaloedd rhan arall o'r DU.

Amrediad etholiadol statudol

7. Mae Atodlen 2 y Ddeddf yn amlinellu nifer o reolau sy'n berthnasol i ddatblygu cynigion ar gyfer etholaethau unigol. Yr un pennaf o'r rhain yw Rheol 2, sy'n darparu – heblaw am pump eithriad penodedig yn y DU – bod rhaid i bob etholaeth fod â nifer etholwyr nad yw'n llai na 95% ac nad yw'n fwy na 105% o gwota etholiadol y DU. Cwota etholiadol y DU ar gyfer Arolwg 2023, i'r rhif cyfan agosaf, yw 73,393.
8. Yr unig etholaeth yng Nghymru nad yw'n ddarostyngedig i weithrediad cwota etholiadol y DU yw Ynys Môn.
9. Felly, ar wahân i Ynys Môn, mae'n rhaid i bob etholaeth yng Nghymru fod â nifer etholwyr nad yw'n llai na 69,724 ac nad yw'n fwy na 77,062. Mae'r Comisiwn yn cyfeirio at y paramedrau hyn fel yr 'amrediad etholiadol statudol'.

Ffiniau llywodraeth leol perthnasol

10. Mae'r Ddeddf yn datgan y caiff y Comisiwn ystyried 'ffiniau llywodraeth leol' wrth iddo ddatblygu ei gynigion ar gyfer etholaethau seneddol. Mae'r Ddeddf yn diffinio ffiniau llywodraeth leol yng Nghymru fel ffiniau siroedd, bwrdeistrefi sirol, wardiau etholiadol, cymunedau a wardiau cymunedol a oedd yn bodoli neu'n 'arfaethedig' ar 'ddyddiad yr arolwg'.
11. Ar gyfer arolwg 2023, mae hyn yn golygu mai'r ffiniau llywodraeth leol y cyfeirir atynt yw'r rhai hynny a oedd mewn grym ar 1 Rhagfyr 2020 (gan nad oedd unrhyw ffiniau arfaethedig yng Nghymru ar y dyddiad hwnnw). Mae'r ffiniau llywodraeth leol hyn i'w gweld yng nghynnyrch mapio 'Boundary-Line' yr Arolwg Ordnans (fersiwn mis Hydref 2020 sydd ar gael yn: <https://www.ordnancesurvey.co.uk/business-government/products/boundaryline>).

Ffactorau statudol eraill

12. Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 y Ddeddf yn pennu nifer o ffactorau eraill y caiff y Comisiwn eu hystyried

wrth iddo ddatblygu cynigion ac argymhellion ar gyfer etholaethau seneddol. Yn benodol, gall y Comisiwn ystyried:

- ystyriaethau daearyddol arbennig – gan gynnwys, yn benodol maint, siâp a hygrychedd etholaeth
- ffiniau llywodraeth leol a oedd yn bodoli neu'n arfaethedig ar 1 Rhagfyr 2020
- ffiniau etholaethau presennol
- unrhyw 'gysylltiadau lleol' a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau
- yr anghyfleustra y mae newidiadau o'r fath yn ei greu

Ystyriaethau daearyddol arbennig

13. Mae'r Comisiwn o'r farn y bydd yr ystyriaethau daearyddol arbennig a allai effeithio ar ffiniau etholaethau yn ymwneud yn bennaf â daearyddiaeth ffisegol – fel mynyddoedd, brynau, llynnoedd, afonydd, aberoedd ac ynysoedd – yn hytrach na daearyddiaeth ddynol neu gymdeithasol. Mae materion diwylliant, hanes, economeg gymdeithasol ac agweddau eraill posibl ar ddaearyddiaeth anffisegol yn fwy tebygol o godi fel materion wrth ystyried y ffactor ar wahân yn ymwneud â chysylltiadau lleol.

Ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau lleol

14. Gall y Comisiwn ystyried ffiniau llywodraeth leol wrth ddatblygu ei gynigion a'i argymhellion ar gyfer etholaethau seneddol. Mae'r rhain yn cynnwys ffiniau allanol prif gynghorau, a'u ffiniau wardiau etholiadol, cymunedau neu wardiau cymunedol mewnol.
15. Bydd y Comisiwn yn ceisio ystyried ffiniau allanol prif gynghorau cyn belled ag y bo modd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen croesi'r ffiniau hyn yn aml i ffurfio etholaethau sy'n cydymffurfio â'r amrediad etholwyr statudol.
16. Bydd y Comisiwn yn defnyddio wardiau etholiadol fel sylfeini ar gyfer cynllunio etholaethau.
17. Bydd y Comisiwn yn ceisio osgoi rhannu wardiau etholiadol rhwng etholaethau. Mae wardiau etholiadol yn unedau sydd wedi'u diffinio'n dda ac y mae dealltwriaeth dda ohonynt. Yn gyffredinol maen nhw'n dynodi ardaloedd sydd â chymuned fuddiant eang. Fodd bynnag, gallai fod amgylchiadau pan fydd yn ddymunol rhannu wardiau etholiadol, yn enwedig wrth ystyried yr

holl ffactorau a amlygwyd yn Rheol 5.

18. Mae'r Comisiwn o'r farn bod ffiniau cymunedol presennol yn debygol o fod wedi cael eu creu i gydnabod cysylltiadau lleol, a'u bod felly'n debygol o adlewyrchu cysylltiadau lleol. Felly, polisi'r Comisiwn yw peidio â rhannu cymunedau presennol pan fydd yn datblygu cynigion ac argymhellion ar gyfer etholaethau seneddol, oni bai nad oes unrhyw ddatrysiad arall ar gael a fyddai'n galluogi cydymffurfio â'r amrediad etholwyr statudol.

Ffiniau etholaethau presennol

19. Mae'r Comisiwn yn bwriadu parchu etholaethau presennol lle y bo'n bosibl gwneud hynny. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod etholaeth bresennol wedi'i diogelu rhag newid dim ond oherwydd bod ei nifer etholwyr o fewn yr amrediad etholwyr statudol. Nid yw ychwaith yn golygu y bydd etholaeth sydd fymryn yn unig y tu allan i'r amrediad statudol yn cael ei diwygio ychydig bach yn unig i ddod o fewn yr amrediad statudol. Un o effeithiau lleihau nifer gyffredinol yr etholaethau yng Nghymru fydd y gall yn wir fod angen newid etholaethau presennol sydd â nifer etholwyr o fewn yr amrediad statudol. Mae hyn oherwydd yr angen i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf ledled Cymru.

Yr anghyfleustra y mae newidiadau o'r fath yn ei greu

20. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y gallai newidiadau arwain at anghyfleustra. Er enghraifft, gallant effeithio ar ba mor hawdd yw hi i bobl bleidleisio'n bersonol. Mae'r Comisiwn yn ceisio lliniaru materion o'r fath trwy gadw wardiau presennol a chydabod cysylltiadau lleol.

Cydawaith yr ystyriaethau

21. Polisi'r Comisiwn yw ystyried yr holl ffactorau a restrir yn Rheol 5 cyn belled ag y bo modd, yn amodol ar ystyriaeth bennaf yr amrediad etholwyr statudol o dan Rheol 2.
22. Mae'n rhaid i etholaethau yng Nghymru (heblaw am Ynys Môn) gydymffurfio â'r amrediad etholwyr statudol. Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn mynnu bod y Comisiwn yn ceisio creu etholaethau â nifer etholwyr sydd mor agos â phosibl i gwota etholiadol y DU. Nid yw'r Comisiwn ychwaith yn

ystyried ei bod yn briodol dilyn amcan polisi o wyro cyn lleied â phosibl oddi wrth gwota etholiadol y DU. Byddai hyn yn tanseilio gallu'r Comisiwn i roi ystyriaeth briodol i'r ffactorau a restrir yn Rheol 5. Er enghraifft, pe bai gan un etholaeth amrywiant o 4% oddi wrth gwota etholiadol y DU a'i bod yn parchu wardiau etholiadol presennol, a bod gan etholaeth arall amrywiant o 1% yn unig ond ei bod yn rhannu wardiau etholiadol, byddai'r Comisiwn yn argymhell yr etholaeth flaenorol.

23. Cyn belled ag y bo modd, bydd y Comisiwn yn ceisio argymhell etholaethau:

- sydd wedi'i ffurfio o wardiau etholiadol cyfan sy'n agos i'w gilydd
- nad ydynt yn cynnwys 'rhannau datgysylltiedig'; hynny yw, lle y byddai'r unig gysylltiad ffisegol rhwng un rhan o'r etholaeth a'r gweddill ohoni yn golygu y byddai'n rhaid teithio trwy etholaeth wahanol

Ffactorau na fydd y Comisiwn yn eu hystyried

Effaith ar ganlyniadau etholiadau yn y dyfodol

24. Mae'r Comisiwn yn gorff annibynnol a diduedd. Fel y cyfryw, nid yw patrymau pleidleisio presennol na ffawd pleidiau gwleidyddol yn y dyfodol yn rhan o'i ystyriaethau yn ystod arolwg.

Ffiniau llywodraeth leol newydd

25. Y ffiniau llywodraeth leol y caiff y Comisiwn eu hystyried yw'r rhai hynny a fodolai yng Nghymru ar 1 Rhagfyr 2020 (gan nad oedd unrhyw ffiniau 'arfaethedig' yng Nghymru ar y dyddiad hwnnw). Fel y cyfryw, ni fydd y Comisiwn yn ystyried ffiniau llywodraeth leol newydd nad oeddent yn bodoli, ac na ddarparwyd ar eu cyfer gan ddeddfwriaeth, ar y dyddiad hwnnw.

Newidiadau i niferoedd etholwyr ar ôl 2 Mawrth 2020

26. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn weithio ar sail nifer yr etholwyr ar y gofrestr etholiadol ar 2 Mawrth 2020. Ni all ystyried unrhyw achosion o dangofrestru neu orgofrestru etholwyr honedig mewn ardaloedd penodol ar y dyddiad hwnnw.

Enwi a dynodi etholaethau

27. Wrth wneud ei argymhellion, mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn bennu enw

a dynodiad ar gyfer pob etholaeth arfaethedig. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys llawer o arweiniad ar y pwyntiau hyn.

Enwi

28. Polisi'r Comisiwn ar enwi etholaethau yw, os nad yw etholaethau wedi'u newid i raddau helaeth, dylid cadw enw presennol yr etholaeth, fel arfer. Yn yr achosion hyn, mae enwau etholaethau'n debygol o gael eu newid dim ond pan fydd rheswm da dros wneud hynny.
29. Ar gyfer etholaeth newydd, dylai'r enw fel arfer adlewyrchu enw'r prif gyngor (neu'r prif gynghorau) sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn yr etholaeth. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn croesawu cynrychiolaethau sy'n cynnig awgrymiadau amgen i'r enwau arfaethedig. Lle mae mwy o gefnogaeth leol yn gyffredinol i enw amgen addas, bydd y Comisiwn yn argymhell y dewis amgen hwnnw fel arfer.
30. Mae'r Comisiwn yn mabwysiadu enwau pwyntiau'r cwmpawd (Gogledd, De, Dwyrain a Gorllewin) pan nad oes enw mwy addas. Pan fydd enw etholaeth yn cyfeirio at ardal y prif gyngor neu hen gyngor dosbarth, bydd y cyfeiriad pwynt cwmpawd a ddefnyddir fel arfer yn ffurfio rhagddodiad (er enghraifft, Canol a De Sir Benfro). Yn Saesneg, pan fydd enw etholaeth yn cyfeirio at ganolfan boblogaeth, bydd cyfeiriad y pwynt cwmpawd yn ffurfio ôl-ddodiad (er enghraifft, Swansea West).
31. Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol i bob etholaeth yng Nghymru fod ag enwau amgen yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hyn yn adlewyrchu statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru. Felly, bydd y Comisiwn yn gwneud argymhellion y dylai dewisiadau amgen swyddogol gael eu darparu yn y Gymraeg ar gyfer enwau etholaethau yn Saesneg, ac i'r gwrthwyneb. Fel hyn, bydd y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal. Yn adroddiadau cynigion ac argymhellion y Comisiwn, bydd enwau amgen yn cael eu darparu yn Gymraeg lle mae enw swyddogol yr etholaeth yn Saesneg, ac yn Saesneg lle mae enw swyddogol yr etholaeth yn Gymraeg. Ni fydd enw amgen pan fydd enw etholaeth yn dderbyniol yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Dynodi

32. Mae'r Ddeddf hefyd yn pennu gofyniad i bob etholaeth gael ei dynodi naill ai'n 'etholaeth sirol'

(county constituency) neu'n 'etholaeth fwrdeistrefol' (borough constituency). Fel egwyddor gyffredinol, mae'r Comisiwn o'r farn, lle mae etholaethau'n cynnwys mwy nag elfen wledig fach, y dylid fel arfer eu dynodi'n etholaethau sirol. Mewn achosion eraill, dylid eu dynodi'n etholaethau bwrdeistrefol. Caiff y dynodiad ei ôl-ddodi at enw'r etholaeth, a'i dalfyrru fel arfer: BC ar gyfer 'borough constituency' a CC ar gyfer 'county constituency'.

Pennod 3:

Etholaethau presennol

Nifer yr etholwyr

1. Ar hyn o bryd, mae 40 o etholaethau yng Nghymru. Mae nifer yr etholwyr yn yr etholaethau yn amrywio o 42,657 (Arfon CC) i 78,238 (De Caerdydd a Phenarth BC). O dan y ddeddfwriaeth, mae nifer yr etholaethau yng Nghymru yn cael eu lleihau o 40 i 32, ac mae'r amrediad etholwyr statudol rhwng 69,724 a 77,062. O ganlyniad, dim ond un etholaeth bresennol, sef Bro Morgannwg CC, sydd o fewn yr amrediad statudol. Fodd bynnag, fel y nodwyd gennym yn y bennod flaenorol, nid mater ydyw bod etholaeth bresennol yn cael ei gwarchod rhag newid dim ond oherwydd bod nifer ei hetholwyr o fewn yr amrediad statudol. Mae hyn oherwydd y gallai fod angen newid i greu etholaethau hyfyw mewn ardaloedd eraill. Yn wir, fel y gellir gweld yn y bennod nesaf, rydym wedi dewis newid ffiniau Bro Morgannwg CC i fodloni'r rheolau statudol yn y ffordd orau yn yr ardal amgylchynol.

Maint etholaethau

2. Mae maint (o ran arwynebedd) yr etholaethau presennol yn amrywio o 17 o gilomedrau sgwâr (km²) (Canol Caerdydd BC) i 3,014km² (Aberhonddu a Maesyfed CC). Y maint mwyaf a ganiateir ar gyfer etholaeth dan y ddeddfwriaeth newydd yw 13,000km². Byddai etholaeth o'r maint hwnnw yn gorchuddio tua 61% o Gymru.

Pattern of electorate

3. Nifer gymharol fach o etholwyr a geir mewn rhannau gwledig o Gymru. Mae'n anochel, felly, o dan y trefniadau newydd, y bydd rhai etholaethau yn fawr iawn (o ran arwynebedd). Yn ogystal, oherwydd y niferoedd cymharol isel o etholwyr yn rhai o Gymoedd De Cymru, bydd yn rhaid i etholaethau gwmpasu mwy nag un cwm. Yn yr un modd, mewn rhai ardaloedd trefol, gall fod angen i brif gynghorau gael eu rhannu. Bydd angen gwneud cyfaddawdau er mwyn creu patrwm o etholaethau ledled Cymru sy'n cadw at y rheolau yn y ddeddfwriaeth. Mae'n bwysig deall y bydd hyd yn oed newidiadau bach i un etholaeth yn esgor ar ganlyniadau i ardaloedd cyfagos – ac yn ehangach o bosibl.

Pennod 4:

Crynodeb o'r cynigion

1. Mae'r ddeddfwriaeth newydd wedi lleihau nifer yr etholaethau yng Nghymru o 40 i 32.
2. Yr unig etholaeth bresennol a bennwyd yn y Ddeddf nad yw'n ddarostyngedig i weithrediad cwota etholiadol y DU yng Nghymru yw Ynys Môn. Felly, mae Ynys Môn mae'n parhau heb ei newid yng nghynigion cychwynnol y Comisiwn. I rai ardaloedd eraill, mae'r newidiadau arfaethedig yn sylweddol.
3. Cwota etholiadol y DU yw 73,393. Ceir goddefiant o rhwng 95% a 105% o'r ffigur hwn (69,724 a 77,062 yn y drefn honno). Ar hyn o bryd mae 38 o etholaethau yn is na'r lleiafswm nifer o etholwyr. Mae un etholaeth yn uwch na'r uchafswm nifer o etholwyr. Mae un etholaeth (Bro Morgannwg CC) yn disgyn o fewn yr amrediad statudol. O dan y cynigion, byddai'r holl etholaethau (ac eithrio Ynys Môn) o fewn yr amrediad statudol, byddai 17 yn is na chwota etholiadol y DU a byddai 15 yn uwch na'r cwota etholiadol.
4. Mae rhai wardiau etholiadol wedi'u rhannu ar hyn o bryd ar draws fwy nag un etholaeth seneddol bresennol oherwydd newidadau i ffiniau wardiau llywodraeth leol ers yr arolwg diwethaf o etholaethau Seneddol. Yn y cynigion hyn, maent wedi'u cyfuno i ffurfio un ward etholiadol o fewn un etholaeth bresennol. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae Dinas Powys wedi'i rhannu fel a ganlyn: mae 3 o etholwyr o fewn etholaeth bresennol Cardiff South and Penarth BC, ac mae 6,385 o etholwyr o fewn etholaeth Vale of Glamorgan CC ar hyn o bryd. (Gweler y tabl ar dudalen 12.)
5. O dan y cynigion, byddai chwech phrif gyngor wedi'u cynnwys yn gyfan gwbl o fewn etholaethau newydd (Blaenau Gwent, Ceredigion, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Sir Fynwy a Thorfaen). Byddai 16 o etholaethau presennol wedi'u cynnwys yn gyfan gwbl o fewn etholaethau newydd (Aberconwy, Alyn and Deeside, Blaenau Gwent, Brecon and Radnorshire, Cardiff Central, Cardiff North, Cardiff West, Ceredigion, Dwyfor Meirionnydd, Islwyn, Llanelli, Montgomeryshire, Rhondda, Torfaen,

Wrexham ac Ynys Môn). Byddai deunaw o enwau etholaethau presennol yn aros yr un peth.

6. O dan y cynigion, byddai gan chwech etholaeth arwynebedd dros 1,000km² (Aberconwy, Aberhonddu a Maesymfed, Caerfyrddin, Ceredigion Preseli, Dwyfor Meirionnydd, a Maldwyn a Glyndŵr). Byddai pedair o'r rhain rhwng 2,000km² a 3,000km² (Caerfyrddin, Ceredigion Preseli, Dwyfor Meirionnydd, a Maldwyn a Glyndŵr). Byddai un yn fwy na 3,000km² (Aberhonddu a Maesymfed).
7. Mae'r Comisiwn wedi cynnig y dylai wardiau etholiadol sydd wedi'u rhannu ar hyn o bryd ar draws fwy nag un etholaeth seneddol bresennol gael eu dyrannu, yn eu cyfanrwydd, i un etholaeth bresennol. Dangosir hyn yn y tabl canlynol.

Ward Etholiadol	Dyraniad etholaeth bresennol (nifer yr etholwyr)	Dyraniad etholaeth bresennol (nifer yr etholwyr)
Dinas Powys	Vale of Glamorgan CC (6,385)	Vale of Glamorgan CC (6,388)
	Cardiff South and Penarth BC (3)	
Pontprennau/Pentref Llaneirwg	Cardiff North BC (7,964)	Cardiff North BC (8,047)
	De Caerdydd a Phenarth BC (83)	
Martletwy	Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro CC (1,134)	Carmarthen West and South Pembrokeshire CC (1,603)
	Preseli Pembrokeshire CC (469)	
Llanhari	Ogmore CC (3,022)	Ogmore CC (3,221)
	Pontypridd CC (199)	
Pont-y-clun	Pontypridd CC (5,371)	Pontypridd CC (6,061)
	Ogmore CC (690)	
Tonysguboriau	Pontypridd CC (1,955)	Pontypridd CC (1,965)
	Ogmore CC (10)	
Clydach	Gower CC (5,713)	Gower CC (5,821)
	Swansea East BC (108)	
Cocyd	Swansea West BC (10,003)	Swansea West BC (10,473)
	Swansea East BC (470)	
Dunfant	Swansea West BC (3,490)	Swansea West BC (3,494)
	Gower CC (4)	
Glandŵr	Swansea East BC (4,712)	Swansea East BC (4,821)
	Swansea West BC (109)	
Llangyfelach	Gower CC (3,841)	Gower CC (3,946)
	Swansea East BC (105)	
Gogledd Croesyceiliog	Monmouth CC (2,664)	Monmouth CC (2,745)


Cynigion cychwynnol

1. Mae Pennod 6 yn disgrifio pob etholaeth newydd arfaethedig yn fanwl, ac yn eu dangos mewn mapiau amlinellol (tudalennau 15 a 16). Mae mapiau manylach o'r etholaethau arfaethedig i'w gweld ar wefan y Comisiwn www.comffin-cymru.gov.uk. Mae'r mapiau ar gael ar ffurf argraffedig hefyd, ochr yn ochr â chopïau o'r ddogfen hon, mewn 'mannau adneuo' dynodedig ym mhob etholaeth arfaethedig (gweler Atodiad 3). Mae'r mapiau i'w defnyddio ar y cyd â'r wybodaeth ystadegol yn ymwneud â'r wardiau etholiadol a ddisgrifir yn y cynigion. Mae'r wybodaeth hon ar gael i'w lawrlwytho hefyd o wefan y Comisiwn, ar ffurf Excel.
2. Byddai cynigion cychwynnol y Comisiwn, o'u mabwysiadu, yn arwain at fap seneddol o Gymru sy'n wahanol iawn i'r un rydym ni'n gyfarwydd ag ef. Mae'r Comisiwn wedi cael y gorchwyl o gynllunio cynigion ar gyfer y 32 o etholaethau gofynnol yn lle'r 40 o etholaethau presennol. Mae'r Comisiwn wedi ymdrechu i weithredu'r ystyriaethau statudol. Fodd bynnag, mae ei allu i wneud hynny, o reidrwydd, wedi'i gyfyngu gan y gofyniad pennaf fod rhaid i bob etholaeth (ac eithrio Ynys Môn) fod o fewn yr amrediad statudol. Mae hyd yn oed newidiadau cymharol fân i ffiniau mewn un etholaeth yn cael effeithiau canlyniadol mewn etholaethau eraill.
3. Mae'r Comisiwn wedi ceisio nodi'r datrysiadau mwyaf addas ar gyfer anghenion lleol, ledled Cymru, y gellir darparu ar eu cyfer o fewn y rheolau statudol – a'r amrediad etholwyr statudol yn benodol.
4. Hoffai'r Comisiwn bwysleisio mai barnau cychwynnol y Comisiwn y mae'r cynigion hyn yn eu cynrychioli. Mae'r Comisiwn yn croesawu cynrychiolaethau gan y cyhoedd. Rhoddir manylion am sut i ymateb i gynigion y Comisiwn ym Mhennod 8.

Pennod 6:

Y cynigion yn fanwl

1. Disgrifir cynigion cychwynnol y Comisiwn yn fanwl yn y bennod hon. Ar gyfer pob etholaeth arfaethedig, mae'r adroddiad yn nodi'r canlynol:
 - enw a dynodiad yr etholaeth y mae'r Comisiwn yn ei chynnig, gan gynnwys yr enw amgen swyddogol arfaethedig (os yw'n berthnasol)
 - y wardiau etholiadol y byddai'n eu cynnwys a'i hamrywiant oddi wrth gwota etholiadol y DU
 - prif resymau'r Comisiwn dros gynnig yr etholaeth
 - esboniad o'r enw arfaethedig
 - map o'r etholaeth argymelledig
2. Mae'r ddau dudalen ganlynol yn amlinellu darlun cyffredinol o'r trefniadau presennol a chynigion cychwynnol y Comisiwn. Mae'r allwedd map, a ddangosir isod, yn esbonio'r lliwiau a'r llinellau a ddefnyddiwyd ym mhob map yn y bennod hon.





Etholaethau Seneddol Presennol

1 : 415,959
0 25 km 50 km

Dinas a Sir Caerdydd



Dinas Abertawe




- | | | |
|---|--|---------------------------------|
| 1 - Aberavon (51,053) | 18 - Cynon Valley (51,147) | 34 - Swansea East (59,156) |
| 2 - Aberconwy (44,852) | 19 - Delyn (54,718) | 35 - Swansea West (57,680) |
| 3 - Alyn and Deeside (63,045) | 20 - Dwyfor Meirionnydd (44,584) | 36 - Torfaen (62,718) |
| 4 - Arfon (42,657) | 21 - Gower (62,410) | 37 - Vale of Clwyd (55,936) |
| 5 - Blaenau Gwent (50,900) | 22 - Islwyn (56,501) | 38 - Vale of Glamorgan (76,811) |
| 6 - Brecon and Radnorshire (54,854) | 23 - Llanelli (60,766) | 39 - Wrexham (49,829) |
| 7 - Bridgend (63,338) | 24 - Merthyr Tydfil and Rhymney (56,589) | 40 - Ynys Mon (52,415) |
| 8 - Caerphilly (64,531) | 25 - Monmouth (66,975) | |
| 9 - Cardiff Central (60,192) | 26 - Montgomeryshire (49,100) | |
| 10 - Cardiff North (68,205) | 27 - Neath (56,777) | |
| 11 - Cardiff South and Penarth (78,238) | 28 - Newport East (59,029) | |
| 12 - Cardiff West (67,886) | 29 - Newport West (67,040) | |
| 13 - Carmarthen East and Dinefwr (57,700) | 30 - Ogmore (57,673) | |
| 14 - Carmarthen West and South Pembrokeshire (59,264) | 31 - Pontypridd (60,408) | |
| 15 - Ceredigion (56,151) | 32 - Preseli Pembrokeshire (59,580) | |
| 16 - Clwyd South (53,921) | 33 - Rhondda (50,262) | |
| 17 - Clwyd West (57,786) | | |

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2021] OS [100047875]




Cynigion Cychwynnol



Ardal Cymoedd De Cymru



Dinas a Sir Caerdydd



- 1 - Aberafan Porthcawl (76,792)
- 2 - Aberconwy (69,909)
- 3 - Alun a Glannau Dyfrdwy (74,144)
- 4 - Blaenau Gwent a Rhymni (71,079)
- 5 - Aberhonddu a Maesfed (72,113)
- 6 - Pen-y-bont (74,388)
- 7 - Caerfyrddin (70,606)
- 8 - Canol Caerdydd (74,486)
- 9 - Gogledd Caerdydd (71,143)
- 10 - De Caerdydd a Phenarth (70,246)
- 11 - Gorllewin Caerdydd (73,947)
- 12 - Ceredigion Preseli (76,269)
- 13 - Clwyd (76,380)
- 14 - Delyn (76,074)
- 15 - Dwyfor Meirionydd (71,962)
- 16 - Islwyn (70,735)
- 17 - Llanelli (71,972)
- 18 - Merthyr Tudful ac Aberdar (71,218)

- 19 - Canol a De Sir Benfro (74,614)
- 20 - Sir Fynwy (72,681)
- 21 - Maldwyn a Glyndwr (72,363)
- 22 - Dwyrain Casnewydd (76,159)
- 23 - Gorllewin Casnewydd a Chaerffili (74,394)
- 24 - Pontypridd (71,237)
- 25 - Rhondda (71,684)
- 26 - Canol a Gogledd Abertawe (76,199)
- 27 - Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd (75,641)
- 28 - Gorllewin Abertawe a Gwyr (75,214)
- 29 - Torfaen (70,591)
- 30 - Bro Morgannwg (70,426)
- 31 - Wrecsam (75,596)
- 32 - Ynys Môn (52,415)

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2021] OS [100047875]

1. Aberafan Porthcawl

1.1 Mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sy'n ffurfio rhan o **Aberavon** CC ar hyn o bryd):

Aberafan (4,048), Baglan (5,383), Dwyrain Llansawel (2,148), Gorllewin Llansawel (2,033), Bryn a Chwmafan (5,220), Y Cymer (2,011), Glyncorrwg (792), Gwynfi (879), Margam (2,309), Port Talbot (4,342), Dwyrain Sandfields (5,038), Gorllewin Sandfields (4,917) a Thai-bach (3,643).

a:

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont (sy'n ffurfio rhan o **Bridgend** CC ar hyn o bryd):

Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr (6,574), Cefn Glas (1,360), Corneli (5,359), Llangewydd and Brynhyfryd (1,878), Newton (3,035), Notais (2,741), Canol Dwyrain Porthcawl (2,580), Canol Gorllewin Porthcawl (2,967) a Rest Bay (1,990).

1.2 Byddai gan yr etholaeth hon 76,792 o etholwyr, sydd 4.6% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw **Aberafan Porthcawl**.

1.3 Mae etholaethau presennol Aberafan a Phen-y-bont islaw'r gofynion statudol ar hyn o bryd o ran nifer yr etholwyr. Ystyriodd y Comisiwn nifer o opsiynau, ac mae'n cynnig cyfuno rhannau o etholaethau presennol Pen-y-bont ac Aberafan. Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol cyfuno'r ardaloedd fel y cynigiwyd oherwydd y cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu da o fewn yr etholaeth arfaethedig.

1.4 Mae'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys wardiau etholiadol sy'n ffurfio rhannau o


ardaloedd prif gyngor Pen-y-bont a Chastell-nedd Port Talbot. Mae'r Comisiwn wedi cynnig yr enw unigol Aberafan Porthcawl i gynrychioli'r etholaeth. Mae'r 2 ran o'r enw hwn yn cynrychioli'r 2 brif anheddiad yn yr ardaloedd y cynigir eu cyfuno o fewn yr etholaeth. Mae'r Comisiwn o'r farn fod y ddwy ran o'r enw yn adnabyddadwy ac yn dderbyniol yn Gymraeg ac yn Saesneg.

1.5

Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol etholaethau presennol **Aberavon** ar dudalen 93, a **Bridgend** ar dudalen 32.

Aberafan Porthcawl

1 : 42,247
0 2.5 km 5 km



- 1 - Tai-bach (3,643)
- 2 - Baglan (5,383)
- 3 - Corneli (5,359)
- 4 - Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr (6,574)
- 5 - Newton (3,035)
- 6 - Notais (2,741)
- 7 - Canol Dwyrain Porthcawl (2,580)
- 8 - Dwyrain Sandfields (5,038)
- 9 - Gorllewin Llansawel (2,033)
- 10 - Aberafan (4,048)
- 11 - Port Talbot (4,342)
- 12 - Gorllewin Sandfields (4,917)

- 13 - Cefn Glas (1,360)
- 14 - Dwyrain Llansawel (2,148)
- 15 - Y Pîl (5,545)
- 16 - Canol Gorllewin Porthcawl (2,967)
- 17 - Rest Bay (1,990)
- 18 - Llangewydd and Brynhyfryd (1,878)

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2021] OS [100047875]

2. Aberconwy

2.1 Mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy (sy'n ffurfio **Aberconwy** CC ar hyn o bryd):

Betws-y-Coed (967), Bryn (1,390), Caerhun (1,677), Capel Ulo (1,284), Conwy (3,295), Craig-y-Don (2,685), Crwst (1,581), Deganwy (3,289), Eglwysbach (1,257), Gogarth (2,795), Gower (850), Llansanffraid (1,814), Marl (3,539), Mostyn (2,758), Pandy (1,463), Pant-yr-afon/Penmaenan (2,167), Penrhyn (3,874), Pensarn (2,274), Trefriw (1,026), Tudno (3,591) a Uwch Conwy (1,276).

a:

2. The wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy (sy'n ffurfio rhan o **Clwyd West** CC ar hyn o bryd):

Llandrillo-yn-Rhos (6,110), Llangernyw (1,104), Mochdre (1,425) a Uwchaled (1,139).

a:

3. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Gwynedd (sy'n ffurfio rhan o Arfon CC ar hyn o bryd):

Arllechwedd (1,091), Deiniol (920), Dewi (1,301), Garth (556), Gerlan (1,696), Glyder (1,257), Hendre (940), Hiracl (1,066), Marchog (1,579), Menai (Bangor) (1,548), Ogwen (1,697) a Tregarth a Mynydd Llandygai (1,628).

2.2 Byddai gan yr etholaeth hon 69,909 o etholwyr, sydd 4.7% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw **Aberconwy**.

2.3 Mae etholaeth bresennol Aberconwy islaw'r gofynion statudol ar hyn o bryd o ran nifer

yr etholwyr. Ystyriodd y Comisiwn nifer o opsiynau, ac mae'n cynnig cyfuno'r cyfan o etholaeth bresennol Aberconwy gyda wardiau etholiadol o etholaethau presennol Gorllewin Clwyd ac Arfon er mwyn bodloni'r amrediad etholwyr statudol. Mae'r Comisiwn wedi cynnig cynnwys wardiau etholiadol Llandrillo yn Rhos, Llangernyw, Mochdre ac Uwchaled yn etholaeth bresennol Gorllewin Clwyd, yn ogystal â'r wardiau etholiadol dwyreiniol o etholaeth bresennol Arfon. Mae'r Comisiwn o'r farn fod yr ardaloedd hyn wedi'u cysylltu'n dda ag etholaeth bresennol Aberconwy trwy gysylltiadau trafndiaeth, ac maent yn debyg o ran cymeriad. Mae'r Comisiwn o'r farn, felly, bod y trefniant arfaethedig yn creu etholaeth gydlynol.

2.4 Mae'r Comisiwn yn cynnig cadw enw etholaeth bresennol Aberconwy fel yr enw unigol ar gyfer yr etholaeth hon, ac mae'r Comisiwn o'r farn ei fod yn enw adnabyddadwy a derbyniol yn Gymraeg ac yn Saesneg.

2.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol etholaethau presennol **Clwyd West** ar dudalennau 51 a 54, ac **Arfon** ar dudalen 57.

Aberconwy

1 : 73,097



3. Alyn and Deeside (Alun a Glannau Dyfrdwy)

3.1 Mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir y Fflint (sy'n ffurfio **Alyn and Deeside** CC ar hyn o bryd):

Aston (2,508), Gogledd Ddwyrain Brychdyn (1,723), De Brychdyn (3,325), Dwyrain Bistre Bwcle (2,653), Gorllewin Bistre Bwcle (3,182), Mynydd Bwcle (2,555), Pentrobin Bwcle (4,181), Caergwrle (1,225), Canol Cei Conna (2,213), Cei Conna Golftyn (3,688), De Cei Conna (4,494), Cei Conna Gwepra (1,647), Ewlo (4,327), Penarlâg (1,623), Higher Kinnerton (1,373), Yr Hôb (2,042), Llanfynydd (1,483), Mancot (2,516), Penyffordd (3,543), Queensferry (1,248), Saltney Cyffordd Yr Wyddgrug (1,100), Saltney Stonebridge (2,672), Sealand (2,026), Dwyrain Shotton (1,219), Shotton Uchaf (1,669), Gorllewin Shotton (1,464) a Treuddyn (1,346).

a:

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Wrecsam (sy'n ffurfio rhan o **Clwyd South** CC ar hyn o bryd):

Brymbo (3,021) a Mwynglawdd (1,870)

a;

3. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir y Fflint (sy'n ffurfio rhan o **Delyn** CC ar hyn o bryd):

Argoed (2,167), Coed Llai (1,627) a New Brighton (2,414).

3.2 Byddai gan yr etholaeth hon 74,144 o etholwyr, sydd 1% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw swyddogol a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw **Alyn and Deeside**. Yr enw amgen swyddogol a gynigir yw **Alun a Glannau Dyfrdwy**.

3.3 Mae etholaeth bresennol Alun a Glannau Dyfrdwy islaw'r gofynion statudol ar hyn o bryd o ran nifer yr etholwyr. Mae'r Comisiwn wedi ystyried nifer o opsiynau, ac mae'n cynnig

cyfuno'r cyfan o etholaeth bresennol Alun a Glannau Dyfrdwy gyda wardiau etholiadol o etholaethau presennol De Clwyd a Delyn er mwyn bodloni'r amrediad etholwyr statudol. Mae'r Comisiwn yn cynnig cynnwys wardiau etholiadol Brymbo a Mwynglawdd o etholaeth bresennol De Clwyd, a wardiau etholiadol Argoed, Coed-llai a Brychdyn Newydd o etholaeth bresennol Delyn. Mae'r Comisiwn o'r farn fod yr ardaloedd hyn wedi'u cysylltu'n dda ag etholaeth bresennol Alun a Glannau Dyfrdwy trwy gysylltiadau trafnidiaeth, ac maent yn debyg o ran cymeriad. Mae'r Comisiwn o'r farn, felly, bod y trefniant arfaethedig yn creu etholaeth gydlynol.

3.4 Mae'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys y cyfan o etholaeth bresennol Alun a Glannau Dyfrdwy a wardiau etholiadol o etholaethau presennol De Clwyd a Delyn. Mae'r Comisiwn yn cynnig cadw enw'r etholaeth bresennol, sef Alyn and Deeside / Alun a Glannau Dyfrdwy fel yr enw ar gyfer yr etholaeth hon.


3.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol etholaethau presennol **Clwyd South** ar dudalennau 75 a 103, a **Delyn** ar dudalen 54.

Alyn and Deeside (Alun a Glannau Dyfrdwy)



1 : 29,986

0 2.5 km 5 km



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2021] OS [100047875]

4. Blaenau Gwent and Rhymney (Blaenau Gwent a Rhymni)

4.1 Mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (sy'n ffurfio **Blaenau Gwent** CC ar hyn o bryd):

Abertyleri (3,074), Badminton (2,452), Beaufort (2,717), Y Blaenau (3,497), Brynmawr (4,028), Cwm (3,254), Cwmtylleri (3,383), Gogledd Glynebwy (3,268), De Glynebwy (2,959), Georgetown (3,091), Llanhilleth (3,387), Nantyglo (3,350), Rassau (2,463), Sirhowi (4,210), Six Bells (1,740), a Chanol a Gorllewin Tredegar (4,027)

a:

2. Y wardiau etholiadol canlynol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o **Merthyr Tydfil and Rhymney** CC ar hyn o bryd):

Cwm Darren (1,870), Moriah (3,128), Tredegar Newydd (3,357), Pontlotyn (1,432), a Thwyn Carno (1,721).

a:

3. Ward etholiadol Aberbargoed (2,706) ym Mwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o **Islwyn** CC ar hyn o bryd)

4. Y wardiau etholiadol canlynol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o **Caerphilly** CC ar hyn o bryd):

Bargoed (4,431) a Gilfach (1,534).

4.2 Byddai gan yr etholaeth 71,079 o etholwyr, sydd 3.2% yn is na chwota etholiadol y DU, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw **Blaenau Gwent and Rhymney**. Yr enw amgen swyddogol a gynigir yw **Blaenau Gwent a Rhymni**.

4.3 Mae etholaeth bresennol Blaenau Gwent islaw'r gofynion statudol ar hyn o bryd o

ran nifer yr etholwyr. Mae'r Comisiwn wedi ystyried nifer o opsiynau, ac mae'n cynnig cyfuno'r cyfan o etholaeth bresennol Blaenau Gwent gyda wardiau etholiadol o etholaethau presennol Merthyr Tudful a Rhymni, Islwyn a Chaerffili er mwyn bodloni'r amrediad etholwyr statudol. Byddai cynnwys wardiau etholiadol Aberbargoed, Bargoed a Gilfach o fewn yr etholaeth newydd hon yn sicrhau y byddai cymuned gyfan Bargoed yn cael ei chynnwys mewn un etholaeth (gan ei bod wedi'i rhannu ar draws dau etholaeth bresennol ar hyn o bryd). Mae'r Comisiwn o'r farn fod yr ardaloedd hyn wedi'u cysylltu'n dda ag etholaeth bresennol Blaenau Gwent trwy gysylltiadau trafniadaeth, ac maent yn debyg o ran cymeriad. Mae'r Comisiwn o'r farn, felly, bod y trefniant arfaethedig yn creu etholaeth gydlynol.

4.4


Mae'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys y cyfan o etholaeth bresennol Blaenau Gwent a wardiau etholiadol o etholaethau presennol Merthyr Tudful a Rhymni, Islwyn a Chaerffili. Mae'r Comisiwn wedi cynnig bod enw presennol yr etholaeth, sef Blaenau Gwent, yn cael ei gyfuno gyda Rhymni, gan y byddai hyn yn adlewyrchu'r ardal o fewn etholaeth bresennol Merthyr Tudful a Rhymni sydd wedi'i chynnwys o fewn yr etholaeth arfaethedig hon.

4.5

Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol etholaethau presennol **Merthyr Tydfil and Rhymney** ar dudalen 66, **Islwyn** ar dudalen 60, a **Caerphilly** ar dudalennau 60, 66 ac 81.

Blaenau Gwent and Rhymney (Blaenau Gwent a Rhymni)

1 : 25,311



1 - Canol a Gorllwein Tredegar (4,027)

2 - Abertyleri (3,074)

3 - Georgetown (3,091)

4 - Gogledd Glynebwy (3,268)

5 - Badminton (2,452)

6 - Beaufort (2,717)

7 - Aberbargoed (2,706)

8 - Pontlotyn (1,432)

9 - Gilfach (1,534)

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2021] OS [100047875]

5. Brecon and Radnor (Aberhonddu a Maesyfed)

5.1 Mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Powys (sy'n ffurfio **Brecon and Radnorshire** CC ar hyn o bryd):

Aber-craf (1,143), Bugeildy (1,135), Bronllys (1,060), Llanfair-ym-Muallt (1,849), Bwlch (800), Crucywel (2,410), Cwm-twrch (1,557), Dyserth a Threcoed (1,055), Felin-fâch (1,102), Clas-ar-Wy (1,901), Gwernyfed (1,178), Y Gelli (1,355), Trefyclo (2,296), Llanafanfawr (1,141), Llanbadarn Fawr (925), Dwyrain Llandrindod/Gorllewin Llandrindod (949), Gogledd Llandrindod (1,517), De Llandrindod (1,726), Llanelwedd (987), Llangatwg (762), Llangors (901), Llangynllo (1,071), Llangynidr (865), Llanwrtyd (1,450), Llanllyr (978), Maescar/Llywel (1,405), Nantmel (1,243), Pencraig (1,375), Llanandras (2,174), Rhaeadr Gwy (1,589), St. David Fewnol (1,263), St. John (2,365), St. Mary (2,194), Talgarth (1,305), Cymuned Talgarth (1,537), Tawe-Uchaf (1,763), Ynyscedwyn (1,705), Yscir (888) ac Ystradgynlais (1,935).

a:

2. Y wardiau etholiadol canlynol ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sy'n ffurfio rhan o **Neath** CC ar hyn o bryd):

Yr Allt-wen (2,023), Cwmllynfell (921), Godre'r graig (1,514), Gwauncaegurwen (2,220), Brynaman Isaf (1,040), Pontardawe (4,283), Rhos (1,997), Trebannws (1,092) ac Ystalyfera (2,169).

5.2 Byddai gan yr etholaeth hon 72,113 o etholwyr, sydd 1.7% islaw cwota etholiadol y DU, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw **Brecon and Radnor**. Yr enw amgen swyddogol a gynigir yw **Aberhonddu a Maesyfed**.

5.3 Mae etholaeth Aberhonddu a Maesyfed islaw'r gofynion statudol ar hyn o bryd o ran nifer yr etholwyr. Ystyriodd y Comisiwn nifer o opsiynau, a chredwyd y byddai'n briodol


cynnwys wardiau etholiadol o etholaeth bresennol Castell-nedd er mwyn bodloni'r amrediad etholwyr statudol. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai cynnwys wardiau etholiadol o etholaeth Castell-nedd yn cyfuno dau ardal sy'n debyg o ran cymeriad, gydag ardal Pontardawe yn rhannu natur lled-wledig debyg ag ardal Ystradgynlais. Mae'r Comisiwn o'r farn felly fod y trefniant arfaethedig yn creu etholaeth gydlynol sydd â chysylltiadau ffordd a chyfathrebu da.

5.4 Mae'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys y cyfan o etholaeth bresennol Aberhonddu a Maesfed a wardiau etholiadol o etholaeth bresennol Castell-nedd. Mae'r Comisiwn o'r farn fod yr enw arfaethedig yn cynrychioli'r ardal, gan gydnabod hefyd fod yr etholaeth arfaethedig yn cynnwys ardaloedd sydd y tu allan i etholaeth bresennol Aberhonddu a Maesfed.

5.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol etholaeth bresennol **Neath** ar dudalen 93.

Brecon and Radnor (Aberhonddu a Maesyfed)

1 : 136,136
0 10 km 20 km



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2021] OS [100047875]

6. Bridgend (Pen-y-bont)

6.1 Mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont (sy'n ffurfio rhan o **Ogmore** CC ar hyn o bryd):

Abercynffig (1,868), Betws (1,595), Melin Ifan Ddu (1,839), Blaengarw (1,333), Bryncethin (1,261), Bryncoch (1,757), Caerau (4,795), Cefn Cribwr (1,180), Felindre (2,087), Hendre (3,175), Llangeinor (887), Llangynwyd (2,351), Dwyrain Maesteg (3,741), Gorllewin Maesteg (4,327), Nant-y-moel (1,745), Bro Ogwr (2,357), Penprysg (2,474), Pontycymer (1,773), Sarn (1,786), ac Ynysawdre (2,748).

a:

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont (sy'n ffurfio rhan o **Bridgend** CC ar hyn o bryd):

Bracla (8,276), Llangrallo Isaf (1,160), Litchard (2,080), Morfa (3,210), Y Castellnewydd (4,287), Yr Hengastell (3,783), Pendre (1,654) a Pen-y-fai (1,853).

6.2 Byddai gan yr etholaeth hon 74,388 o etholwyr, sydd 1.4% uwchlaw cwota etholiadol y DU, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw **Bridgend**. Yr enw amgen swyddogol a gynigir yw **Pen-y-bont**.

21.3 Mae etholaethau presennol Maldwyn a De Clwyd islaw'r gofynion statudol ar hyn o bryd o ran nifer yr etholwyr. Ystyriodd y Comisiwn nifer o opsiynau, ac mae'n cynnig cyfuno etholaeth bresennol Maldwyn a'r wardiau etholiadol i'r gogledd i gynnwys wardiau etholiadol o etholaeth bresennol De Clwyd er mwyn bodloni'r amrediad etholwyr statudol. Mae'r Comisiwn yn ystyried y byddai cynnwys wardiau etholiadol o etholaeth bresennol De Clwyd yn cyfuno ardaloedd sy'n debyg o ran natur ac yn rhannu nodweddion gwledig tebyg. Mae'r Comisiwn o'r farn y byddai'r trefniant arfaethedig yn cyfuno etholaeth bresennol Maldwyn gydag ardal a fyddai'n cynnwys y wardiau etholiadol deheuol o hen ardal cyngor dosbarth Glyndŵr.


21.4 Mae'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys y cyfan o etholaeth bresennol Maldwyn a rhan o etholaeth bresennol De Clwyd. Mae'r Comisiwn o'r farn fod yr enw arfaethedig yn cynrychioli'r ardal, wrth gydnabod bod yr etholaeth arfaethedig yn cynnwys ardaloedd sydd y tu allan i etholaeth bresennol Maldwyn.

21.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol etholaeth bresennol **Clwyd South** ar dudalennau 23 a 103.

Montgomeryshire and Glyndwr (Maldwyn a Glyndwr)



Ardal Llangollen



- | | | |
|--|-------------------------------------|---|
| 1 - Llanidloes (2,149) | 9 - Pen-y-Cae a De Rhiwabon (2,026) | 16 - Gogledd y Waun (1,846) |
| 2 - Dwyrain y Drenewydd (1,401) | 10 - De'r Waun (1,503) | 17 - Ddelforwyn (1,652) |
| 3 - Y Drenewydd Gogledd Llanilwchaearn (1,602) | 11 - Rhiwabon (2,078) | 18 - Llandrinio (1,763) |
| 4 - Y Trallwng Llannerch Hudol (1,602) | 12 - Llangollen Wledig (1,631) | 19 - Y Drenewydd Gorllewin Llanilwchaearn (1,447) |
| 5 - Machynlleth (1,701) | 13 - Plas Madoc (1,169) | 20 - Yr Ystog (1,292) |
| 6 - Dyffryn Ceiriog/Ceiriog Valley (1,685) | 14 - Llanfair Caereinion (1,301) | 21 - Trefaldwyn (1,107) |
| 7 - Pen-y-cae (1,525) | 15 - Cefn (3,768) | 22 - Castell y Trallwng (962) |
| 8 - Llangollen (3,302) | | 23 - Ffordun (1,215) |
| | | 24 - Cegidfa (1,827) |
| | | 25 - Y Trallwng Gungrog (1,995) |
| | | 26 - Trewern (1,066) |
| | | 27 - Llanfyllin (1,217) |
| | | 28 - Llansanffraid (1,563) |
| | | 29 - Llandysilio (1,441) |
| | | 30 - Canol y Drenewydd (2,122) |
| | | 31 - Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin (1,815) |
| | | 32 - De y Drenewydd (1,215) |

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2021] OS [100047875]

22. Newport East (Dwyrain Casnewydd)

22.1 Mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth fwrdeistrefol o'r canlynol:

1. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas Casnewydd (sy'n ffurfio rhan o **Newport East** CC ar hyn o bryd):

Alway (5,931), Beechwood (5,611), Langstone (3,878), Liswerry (9,110), Llan-wern (3,544), Ringland (5,968), Sain Silian (6,287) a Victoria (5,121).

a:

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas Casnewydd (sy'n ffurfio rhan o **Newport West** CC ar hyn o bryd):

Betws (5,656), Caerllion (6,603), Malpas (6,114), Pillgwenlly (5,174), Shaftesbury (3,778) a Stow Hill (3,384).

22.2 Byddai gan yr etholaeth hon 76,159 o etholwyr, sydd 3.8% uwchlaw cwota etholiadol y DU, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw **Newport East**. Yr enw amgen swyddogol a gynigir yw **Dwyrain Casnewydd**.

22.3 Mae etholaeth bresennol Dwyrain Casnewydd islaw'r gofynion statudol ar hyn o bryd o ran nifer yr etholwyr. Ystyriodd y Comisiwn nifer o opsiynau, a phenderfynodd gynnis symud y wardiau etholiadol sydd o fewn ardal prif gyngor Sir Fynwy a chynnwys y wardiau hynny yn etholaeth arfaethedig Sir Fynwy. Felly, mae'r Comisiwn wedi cynnig cynnwys chwech ward etholiadol o etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd er mwyn bodloni'r amrediad etholwyr statudol. Byddai etholaeth arfaethedig Dwyrain Casnewydd wedi'i ffurfio'n gyfan gwbl o wardiau etholiadol o fewn ardal prif gyngor Dinas Casnewydd. Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol cynnwys wardiau etholiadol sydd â chysylltiad da o Orllewin Casnewydd, sydd yn gyfan gwbl o fewn ardal prif gyngor Dinas Casnewydd.


22.4 Mae'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys wardiau etholiadol sydd yn gyfan gwbl o fewn ardal prif gyngor Dinas Casnewydd. Mae'r Comisiwn yn cynnig cadw enw'r etholaeth

bresennol, sef Dwyrain Casnewydd, fel yr enw ar gyfer yr etholaeth hon.

22.5

Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol etholaethau presennol **Newport East** ar dudalen 72, a **Newport West** ar dudalen 81.

Newport East (Dwyrain Casnewydd)



- 1 - Stow Hill (3,384)
- 2 - Victoria (5,121)
- 3 - Pilgwenlli (5,174)
- 4 - Shaftesbury (3,778)
- 5 - Sain Silian (6,287)
- 6 - Beechwood (5,611)

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2021] OS [100047875]

23. Newport West and Caerphilly (Gorllewin Casnewydd a Chaerffili)

23.1 Mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas Casnewydd (sy'n ffurfio rhan o **Newport West** CC ar hyn o bryd):

Allt-yr-yn (7,088), Y Gaer (6,543), Y Graig (5,053), Maerun (4,897), Tŷ-du (9,421), a Pharc Tredegar (3,329).

a:

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili (sy'n ffurfio rhan o **Caerphilly** CC ar hyn o bryd):

Cwm Aber (4,655), Bedwas, Trethomas and Machen (7,902), Morgan Jones (5,636), Penyrheol (9,021), St. James (4,267) a St. Martins (6,582).

23.2 Byddai gan yr etholaeth hon 74,394 o etholwyr, sydd 1.4% uwchlaw cwota etholiadol y DU, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw **Newport West and Caerphilly**. Yr enw amgen swyddogol a gynigir yw **Gorllewin Casnewydd a Chaerffili**.

23.3 Mae etholaethau presennol Gorllewin Casnewydd a Chaerffili islaw'r gofynion statudol ar hyn o bryd o ran nifer yr etholwyr. Ystyriodd y Comisiwn nifer o opsiynau, a chynigiodd gyfuno wardiau etholiadol o'r ddwy etholaeth i gyrraedd nifer ofynnol yr etholwyr. Roedd y Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol cyfuno wardiau etholiadol o etholaeth bresennol Caerffili gyda wardiau etholiadol o etholaeth bresennol Gorllewin Casnewydd i ffurfio etholaeth newydd o fewn yr amrediad etholwyr statudol. Mae'r wardiau etholiadol o fewn yr etholaeth arfaethedig hon yn ffurfio rhan o ardaloedd prif gyngor Casnewydd a Chaerffili, sy'n rhannu bwrdd iechyd. Mae'r Comisiwn o'r farn bod cysylltiadau ffordd da rhwng y ddau ardal.


23.4 Mae'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys wardiau etholiadol o ardal prif gyngor Dinas

Casnewydd ac ardal prif gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r Comisiwn yn cynnig cyfuno enwau'r etholaethau presennol i ffurfio'r enw arfaethedig ar gyfer yr etholaeth hon. Cynigir bod tref Caerffili yn cael ei chynnwys yn yr etholaeth hon, ac, am y rheswm hwn, mae'r Comisiwn yn cynnig cynnwys Caerffili yn enw'r etholaeth. Mae statws Casnewydd fel y ddinas o fewn yr etholaeth hon yn rhoi blaenoriaeth iddi yn y drefn y mae'r enwau'n ymddangos yn enw'r etholaeth.

23.5

Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol etholaethau presennol **Caerphilly** ar dudalennau 26, 60 a 66, a **Newport West** ar dudalen 78.

Newport West and Caerphilly (Gorllewin Casnewydd a Chaerffili)



- 1 - Parc Tredegar (3,329)
- 2 - Morgan Jones (5,636)

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2021] OS [100047875]



24. Pontypridd

24.1 Mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o **Pontypridd** CC ar hyn o bryd):

Beddau (3,172), Pentre'r Eglwys (4,424), Graig (1,885), Y Ddraenen Wen (3,180), Tref Llantrisant (3,187), Llanilltud Faerdref (4,825), Tref Pontypridd (2,208), Rhondda (3,458), Canol Rhydfelen/Ilan (3,037), Tonysguboriau (1,965), Ton-teg (3,183), Trallwng (2,824), Trefforest (2,862) a Thyn-y-nant (2,454).

a:

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o **Cynon Valley** CC ar hyn o bryd):

Gogledd Aberaman (3,609), De Aberaman (3,541), Abercynon (4,441), Cilfynydd (2,110), Glyncoch (2,006), Dwyrain Aberpennar (2,254), Gorllewin Aberpennar (3,123), Penrhiw-ceibr (4,056), ac Ynysybwl (3,433).

24.2 Byddai gan yr etholaeth hon 71,237 o etholwyr, sydd 2.9% islaw cwota etholiadol y DU, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw **Pontypridd**.

24.3 Mae etholaeth bresennol Pontypridd islaw'r gofynion statudol ar hyn o bryd o ran nifer yr etholwyr. Ystyriodd y Comisiwn nifer o opsiynau, ac mae'n cynnig cyfuno wardiau etholiadol o etholaeth gymdogol Cwm Cynon er mwyn bodloni'r amrediad etholwyr statudol. Mae'r Comisiwn o'r farn bod cynnwys wardiau etholiadol o Gwm Cynon sydd yn gyfan gwbl o fewn ardal prif gyngor Rhondda Cynon Taf yn creu etholaeth sy'n cael ei chadw o fewn un ardal prif gyngor. Byddai cyfuno wardiau etholiadol Cilfynydd a Glyncoch gyda gweddill tref Pontypridd fel y cynigiwyd yn sicrhau bod y cyfan o dref Pontypridd yn cael ei chynnwys o fewn un etholaeth, lle mae wedi'i rhannu ar draws dau

etholaeth bresennol ar hyn o bryd. Mae'r Comisiwn o'r farn fod cyfuno wardiau etholiadol o etholaeth bresennol Pontypridd ac etholaeth bresennol Cwm Cynon yn y modd hwn yn darparu ar gyfer etholaeth briodol sy'n dilyn ffyrdd y cymoedd o'r gogledd i'r de.

24.4



Mae'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys wardiau etholiadol sydd yn gyfan gwbl o fewn ardal prif gyngor Rhondda Cynon Taf. Mae'r Comisiwn yn cynnig bod enw'r etholaeth bresennol, sef Pontypridd, yn enw unigol ar gyfer yr etholaeth hon, ac mae'r Comisiwn o'r farn ei fod yn enw adnabyddadwy a derbyniol yn Gymraeg ac yn Saesneg.

24.5

Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol etholaethau presennol **Cynon Valley** ar dudalen 66, a **Pontypridd** ar dudalennau 41, 46 ac 87.

Pontypridd

1 : 24,926



- 1 - Penrhiw-ceibr (4,056)
- 2 - Gorllewin Aberpennar (3,123)
- 3 - Tref Llantrisant (3,187)
- 4 - Gogledd Aberaman (3,609)
- 5 - Canol Rhydfelen/Ilan (3,037)
- 6 - Y Ddraenen Wen (3,180)
- 7 - Tonysguboriau (1,965)
- 8 - Tyn-y-nant (2,454)
- 9 - Pentre'r Eglwys (4,424)
- 10 - Graig (1,885)
- 11 - Tref Pontypridd (2,208)
- 12 - Trallwng (2,824)

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2021] OS [100047875]

25. Rhondda

25.1 Mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio **Rhondda** CC ar hyn o bryd):

Cwm Clydach (1,987), Cymer (3,977), Glyn Rhedyn (3,114), Llwyn-y-pia (1,637), Y Maerdy (2,283), Pentre (3,902), Pen-y-graig (3,929), Y Porth (4,282), Tonypandy (2,686), Trealaw (2,895), Treherbert (4,158), Treorci (5,693), Tylorstown (3,054), Ynyshir (2,380) ac Ystrad (4,285)

a:

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o **Ogmore** CC ar hyn o bryd):

Brynna (3,616), Gilfach Goch (2,437), Llanharan (2,819) a Llanhari (3,022).

a:

3. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (sy'n ffurfio rhan o **Pontypridd** CC ar hyn o bryd):

Llanhari (199), Dwyrain Tonyrefail (4,433) a Gorllewin Tonyrefail (4,896).

25.2 Byddai gan yr etholaeth hon 71,684 o etholwyr, sydd 2.3% islaw cwota etholiadol y DU, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw unigol swyddogol a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw **Rhondda**.


25.3 Mae etholaeth bresennol Rhondda islaw'r gofynion statudol ar hyn o bryd o ran nifer yr etholwyr. Ystyriodd y Comisiwn nifer o opsiynau, ac mae'n cynnig cyfuno ward etholiadol bresennol Rhondda gyda wardiau etholiadol o etholaethau presennol Ogwr a Phontypridd er mwyn bodloni'r amrediad etholwyr statudol. Mae'r Comisiwn yn cynnig cynnwys wardiau etholiadol o etholaethau cymdogol sydd yn gyfan gwbl o fewn ardal prif gyngor Rhondda Cynon Taf. Mae cysylltiadau ffordd da ledled yr etholaeth arfaethedig,

sy'n dilyn ffyrdd y cymoedd o'r gogledd i'r de, er mwyn cadw cyfanrwydd a hunaniaeth y cwm.

25.4 Mae'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys wardiau etholiadol sydd yn gyfan gwbl o fewn ardal prif gyngor Rhondda Cynon Taf ac yn cynnwys y cyfan o etholaeth bresennol Rhondda. Mae'r Comisiwn yn cynnig bod enw'r etholaeth bresennol, sef Rhondda, yn aros fel yr enw unigol ar gyfer yr etholaeth hon, ac mae'r Comisiwn o'r farn ei fod yn enw adnabyddadwy a derbyniol yn Gymraeg ac yn Saesneg.

25.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol etholaethau presennol **Ogmore** ar dudalen 32, a **Pontypridd** ar dudalennau 41, 46 ac 84.

Rhondda



26. Swansea Central and North (Canol a Gogledd Abertawe)

26.1 Mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o **Gower** CC ar hyn o bryd):

Llangyfelach (3,946), Mawr (1,438), Penlle'r-gaer (2,553) a Pontarddulais (4,954)

a:

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o **Swansea East** BC ar hyn o bryd):

Cwmbwrla (5,622), Glandŵr (4,821), Treforys (12,105), Mynydd-bach (6,625) a Phenderi (7,397)

a:

3. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o **Swansea West** BC ar hyn o bryd):

Y Castell (10,312), Townhill (5,592) ac Uplands (10,834)

26.2 Byddai gan yr etholaeth hon 76,199 o etholwyr, sydd 3.8% uwchlaw cwota etholiadol y DU, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw **Swansea Central and North**. Yr enw amgen swyddogol a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw **Canol a Gogledd Abertawe**.

26.3 Mae etholaethau presennol Gŵyr, Dwyrain Abertawe a Gorllewin Abertawe islaw'r gofynion statudol ar hyn o bryd o ran nifer yr etholwyr. Ystyriodd y Comisiwn nifer o opsiynau, ac mae'n cynnig cyfuno'r wardiau etholiadol canolog a gogleddol o fewn ardal prif gyngor Abertawe i ffurfio etholaeth sydd o fewn yr amrediad etholwyr statudol. Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol i gyfuno'r ardaloedd hyn er mwyn bodloni'r gofynion statudol. Mae'r Comisiwn o'r farn, hefyd, fod y trefniant arfaethedig yn creu etholaeth gydlynol, sydd â chysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu da, ac a ffurfir o wardiau

etholiadol sydd yn gyfan gwbl o fewn un ardal prif gyngor.


26.4

Mae'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys wardiau etholiadol sydd yn gyfan gwbl o fewn ardal prif gyngor Dinas a Sir Abertawe. Mae'r Comisiwn yn cynnig defnyddio'r ardaloedd daearyddol a gynhwysir o fewn yr etholaeth arfaethedig i ffurfio'r enw arfaethedig ar gyfer yr etholaeth hon.

26.5

Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol etholaethau presennol **Gower** ar dudalennau 93 a 96, **Swansea East** ar dudalen 93, a **Swansea West** ar dudalen 96.

Swansea Central and North (Canol a Gogledd Abertawe)



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2021] OS [100047875]

27. Swansea East and Neath (Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd)

27.1 Mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o **Swansea East** BC ar hyn o bryd):

Bôn-y-maen (5,391), Llansamlet (11,107) a St. Thomas (5,514)

a:

2. Ward etholiadol Clydach (5,821) o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o **Gower** CC ar hyn o bryd):

a:

3. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sy'n ffurfio rhan o **Aberavon** CC ar hyn o bryd):

Coed-ffranc Ganol (2,892), Gogledd Coed-ffranc (1,811) a Gorllewin Coed-ffranc (3,587).

a:

4. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (sy'n ffurfio rhan o **Neath** CC ar hyn o bryd):

Aberdulais (1,712), Blaen-gwrach (1,491), Gogledd Bryn-côch (1,787), De Bryn-côch (4,547), Llangatwg (1,365), Cimla (3,107), Y Creunant (1,508), Dyffryn (2,447), Glyn-nedd (2,577), Dwyrain Castell-Nedd (4,468), Gogledd Castell-Nedd (2,931), De Castell-Nedd (3,694), Onllwyn (935), Pelenna (936), Resolfen (2,387), Blaendulais (1,554) a Thonna (2,072).

27.2 Byddai gan yr etholaeth hon 75,641 o etholwyr, sydd 3.1% uwchlaw cwota etholiadol y DU, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw **Swansea East and Neath**. Yr enw amgen swyddogol a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw **Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd**.



27.3 Mae etholaethau presennol Castell-nedd a Dwyrain Abertawe islaw'r gofynion statudol

ar hyn o bryd o ran nifer yr etholwyr. Ystyriodd y Comisiwn nifer o opsiynau, ac mae'n cynnig cyfuno pob un, ac eithrio 10, o wardiau etholiadol presennol Castell-nedd gyda wardiau etholiadol Bôn-y-maen, Llansamlet a St Thomas o etholaeth bresennol Dwyrain Abertawe. Hefyd, mae'r Comisiwn yn cynnig cynnwys wardiau etholiadol Coedffranc Canol, Gogledd Coedffranc a Gorllewin Coedffranc o etholaeth bresennol Aberafan, a ward etholiadol Clydach o etholaeth bresennol Gŵyr. Byddai hyn yn creu etholaeth sy'n rhannu cymeriad tebyg fel ardaloedd gwledig cymysg, ac mae ganddi gysylltiadau trafnidiaeth da rhwng yr ardaloedd a gyfunir.

27.4 Mae'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys wardiau etholiadol o ardaloedd prif gyngor Dinas a Sir Abertawe a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Mae'r Comisiwn yn cynnig cyfuno enwau etholaethau presennol Castell-nedd a Dwyrain Abertawe ar gyfer yr etholaeth hon.

27.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol etholaethau presennol **Swansea East** ar dudalen 90, **Aberavon** ar dudalen 17, **Neath** ar dudalen 29, a **Gower** ar dudalennau 90 a 96.

Swansea East and Neath (Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd)



- 1 - Cimla (3,107)
- 2 - Gogledd Coed-ffranc (1,811)
- 3 - Llangatwg (1,365)
- 4 - Gogledd Bryn-côch (1,787)
- 5 - Dwyrain Castell-nedd (4,468)
- 6 - Gogledd Castell-nedd (2,931)
- 7 - Coed-ffranc Ganol (2,892)
- 8 - De Castell-nedd (3,694)
- 9 - De Bryn-côch (4,547)

28. Swansea West and Gower (Gorllewin Abertawe a Gŵyr)

28.1 Mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o **Gower** CC ar hyn o bryd):

Llandeilo Ferwallt (2,743), Fairwood (2,278), Gorseinon (3,340), Gŵyr (2,990), Tre-gŵyr (3,978), Pontybrenin (3,506), Llwchwr Isaf (1,795), Newton (2,894), Ystumllwynarth (3,313), Penclawdd (2,932), Pennard (2,229), Penyrheol (4,621), Pontarddulais (4,954), Llwchwr Uchaf (2,146) a West Cross (5,142)

a:

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Dinas a Sir Abertawe (sy'n ffurfio rhan o **Swansea West** BC ar hyn o bryd):

Cocyd (10,473), Dynfant (3,494), Gogledd Cilâ (2,031), De Cilâ (1,857), Mayals (2,148) a Sgeti (11,304).



28.2 Byddai gan yr etholaeth hon 75,214 o etholwyr, sydd 2.5% uwchlaw cwota etholiadol y DU, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw **Swansea West and Gower**. Yr enw amgen swyddogol a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw **Gorllewin Abertawe a Gŵyr**.

28.3 Mae etholaethau presennol Gŵyr a Gorllewin Abertawe islaw'r gofynion statudol ar hyn o bryd o ran nifer yr etholwyr. Ystyriodd y Comisiwn nifer o opsiynau, ac mae'n cynnig cyfuno pob un, ac eithrio tri, o wardiau etholiadol presennol Gorllewin Abertawe gydag ardal Penrhyn Gŵyr yn etholaeth bresennol Gŵyr i ffurfio etholaeth o fewn yr amrediad etholwyr statudol. Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol cyfuno'r ardaloedd hyn er mwyn bodloni'r gofynion statudol. Mae'r Comisiwn yn ystyried y byddai cynnwys wardiau etholiadol o Gŵyr sydd yn gyfan gwbl o fewn ardal prif gyngor Abertawe yn creu etholaeth gydlynol gyda chysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu da.

- 28.4** Mae'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys wardiau etholiadol sydd yn gyfan gwbl o fewn ardal prif gyngor Dinas a Sir Abertawe. Mae'r Comisiwn yn cynnig cyfuno enwau'r etholaethau presennol i ffurfio'r enw arfaethedig ar gyfer yr etholaeth hon.
- 28.5** Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol etholaethau presennol **Gower** ar dudalennau 90 a 93, a **Swansea West** ar dudalen 90.

Swansea West and Gower (Gorllewin Abertawe a Gwyr)

- 1 - Pontybrein (3,506)
- 2 - Ystumllwynarth (3,313)
- 3 - Newton (2,894)
- 4 - De Ciliâ (1,857)
- 5 - Gogledd Ciliâ (2,031)
- 6 - Dynfant (3,494)
- 7 - Llchwyr Isaf (1,795)
- 8 - Llchwyr Uchaf (2,146)
- 9 - Gorseinon (3,340)



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2021] OS [100047875]

29. Torfaen

29.1 Mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Torfaen (sy'n ffurfio **Torfaen** CC ar hyn o bryd):

Abersychan (5,044), Blaenavon (4,575), Bryn-wern (1,295), Coed Efa (1,859), Cwmynysgoi (987), Fairwater (3,918), Greenmeadow (2,028), Llantarnam (4,864), New Inn (4,777), Panteg (5,828), Pontnewydd (5,186), Pontnewynydd (1,129), Pont-y-pwl (1,438), St. Cadocs a Phen-y-garn (1,341), Llanfihangel Llantarnam (3,317), Snatchwood (1,819), Trefddyn (2,463), Two Locks (4,715), Cwmbran (4,207) a Waunfelin (1,847)

a:

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Fwrdeistref Sirol Torfaen (sy'n ffurfio rhan o **Monmouth** CC ar hyn o bryd):

Gogledd Croesyceiliog (2,745), De Croesyceiliog (1,460), Gogledd Llanyrafon (1,803) a De Llanyrafon (1,946).


29.2 Byddai gan yr etholaeth hon 70,591 o etholwyr, sydd 3.8% islaw cwota etholiadol y DU, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw **Torfaen**.

29.3 Mae'r Comisiwn yn cynnig defnyddio'r cyfan o ardal prif gyngor Torfaen i greu etholaeth. Mae'r etholaeth arfaethedig hon o fewn yr amrediad etholwyr statudol.

29.4 Byddai'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys y cyfan o ardal prif gyngor Torfaen. Mae'r Comisiwn, felly, o'r farn y byddai'r enw awgrymedig yn adlewyrchu'r etholaeth arfaethedig. Mae'r Comisiwn yn cynnig cadw enw'r etholaeth bresennol, sef Torfaen, fel enw unigol ar gyfer yr etholaeth hon, ac mae'r Comisiwn o'r farn ei fod yn enw adnabyddadwy a derbyniol yn Gymraeg ac yn Saesneg.

29.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol etholaeth bresennol **Monmouth** ar dudalen 72.

Torfaen




1 : 26,802
0 2.5 km 5 km

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2021] OS [100047875]


30. Vale of Glamorgan (Bro Morgannwg)

- 30.1** Mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:
- Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (sy'n ffurfio **Vale of Glamorgan** CC ar hyn o bryd):
- Baruc (6,080), Buttrills (4,447), Cadoc (7,244), Castleland (3,442), Y Cwrt (3,370), Y Bont-faen (5,240), Dyfan (4,170), Gibbonsdown (3,827), Illtyd (6,242), Llandŵ/Ewenni (2,362), Llanilltud Fawr (7,939), Llanbedr-y-fro (1,855), Y Rhws (5,796), Sain Tathan (2,765), Saint y Brid (2,732) a Gwenfô (2,915).
- 30.2** Byddai gan yr etholaeth hon 70,426 o etholwyr, sydd 4% islaw cwota etholiadol y DU, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw **Vale of Glamorgan**. Yr enw amgen swyddogol a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw **Bro Morgannwg**.
- 30.3** Etholaeth bresennol Bro Morgannwg yw'r unig etholaeth yng Nghymru y mae ei nifer bresennol o etholwyr o fewn yr amrediad statudol. Ystyriodd y Comisiwn nifer o opsiynau, ac mae'n cynnig y dylai ward etholiadol Dinas Powys o etholaeth Bro Morgannwg gael ei chynnwys yn lle hynny o fewn etholaeth De Caerdydd a Phenarth i ffurfio etholaeth sydd o fewn yr amrediad etholwyr statudol.
- 30.4** Mae'r Comisiwn yn cynnig y dylai gweddill y wardiau etholiadol o fewn etholaeth bresennol Bro Morgannwg (ar ôl i ward etholiadol Dinas Powys gael ei symud) ffurfio etholaeth newydd. Mae'r etholaeth arfaethedig newydd honno'n parhau o fewn yr amrediad etholwyr statudol, ac mae wedi'i ffurfio'n gyfan gwbl o wardiau etholiadol o ardal prif gyngor Bro Morgannwg.
- 30.5** Byddai etholaeth arfaethedig Bro Morgannwg yn cynnwys wardiau etholiadol yn gyfan gwbl o etholaeth bresennol Bro Morgannwg ac ardal prif gyngor Bro Morgannwg.
- 30.6** Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol etholaeth bresennol **Vale of Glamorgan** ar dudalen 43.

Vale of Glamorgan (Bro Morgannwg)



- 1 - Dyfan (4,170)
- 2 - Cadoc (7,244)
- 3 - Castleland (3,442)
- 4 - Illtyd (6,242)
- 5 - Buttrills (4,447)
- 6 - Gibbonsdown (3,827)
- 7 - Y Cwrt (3,370)



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2021] OS [100047875]

31. Wrexham (Wrecsam)

31.1 Mae'r Comisiwn yn cynnig creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (sy'n ffurfio **Wrexham** CC ar hyn o bryd):

Acton (2,177), Parc Borrass (1,968), Brynyffynnon (2,477), Cartrefle (1,545), Erddig (1,444), Garden Village (1,656), Dwyrain a Gorllewin Gresfordd (2,337), Grosvenor (1,698), Dwyrain a De Gwersyllt (3,601), Gogledd Gwersyllt (1,995), Gorllewin Gwersyllt (2,263), Hermitage (1,544), Holt (2,479), Little Acton (1,843), Llai (3,513), Maesdre (1,420), Marford a Hoseley (1,824), Offa (1,428), Queensway (1,377), Rhosesni (2,827), Yr Orsedd (2,643), Smithfield (1,376), Stansty (1,641), Whitegate (1,594) a Wynnstay (1,159)

a:

2. Y wardiau etholiadol canlynol o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam (sy'n ffurfio rhan o **Clwyd South** CC ar hyn o bryd):

Bronington (2,620), Bryn Cefn (1,543), Coedpoeth (3,482), Esclusham (2,013), Gwenfro (1,217), Johnstown (2,461), Marchwiall (1,830), Brychdwn Newydd (2,842), Owrtyn (2,710), Pant (1,528) a Phonciau (3,521).

31.2 Byddai gan yr etholaeth hon 75,596 o etholwyr, sydd 3% uwchlaw cwota etholiadol y DU, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw **Wrexham**. Yr enw amgen swyddogol a gynigir yw **Wrecsam**.


31.3 Mae etholaeth bresennol Wrecsam islaw'r gofynion statudol ar hyn o bryd o ran nifer yr etholwyr. Ystyriodd y Comisiwn nifer o opsiynau, ac mae'n cynnig cyfuno'r wardiau etholiadol sy'n ffurfio etholaeth bresennol Wrecsam gydag ardaloedd o amgylch, i gynnwys wardiau etholiadol o etholaeth bresennol De Clwyd sydd yn gyfan gwbl o fewn ardal prif gyngor Wrecsam. Mae'r etholaeth arfaethedig a ffurfir ar y sail hon o fewn yr amrediad etholwyr statudol. Mae'r Comisiwn o'r farn fod cyfuno'r cyfan o etholaeth

bresennol Wrecsam gyda wardiau etholiadol o Dde Clwyd sydd o fewn ardal prif gyngor Wrecsam, ac sy'n debyg o ran natur, yn creu etholaeth gydlynol sydd â chysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu da.

31.4 Mae'r etholaeth arfaethedig yn cynnwys y cyfan o etholaeth bresennol Wrecsam a wardiau etholiadol o etholaeth bresennol De Clwyd. Mae'r etholaeth arfaethedig yn gyfan gwbl o fewn ardal prif gyngor Wrecsam. Mae'r Comisiwn yn cynnig cadw enw'r etholaeth bresennol, sef Wrecsam, fel yr enw ar gyfer yr etholaeth hon.

31.5 Gellir gweld gweddill wardiau etholiadol etholaeth bresennol **Clwyd South** ar dudalennau 23 a 75.

Wrexham (Wrecsam)



- 1 - Brynyffynnon (2,477)
- 2 - Brychdwn Newydd (2,842)
- 3 - Dwyrain a Gorllewin Gresfordd (2,337)
- 4 - Wynnstey (1,159)
- 5 - Esclusham (2,013)
- 6 - Coedpoeth (3,482)
- 7 - Cartrefle (1,545)
- 8 - Rhosesni (2,827)
- 9 - Parc Borras (1,968)
- 10 - Offa (1,428)
- 11 - Smithfield (1,376)

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2021] OS [100047875]

- 12 - Whitegate (1,594)
- 13 - Johnstown (2,461)
- 14 - Gorllewin Gwersyllt (2,263)
- 15 - Bryn Cefn (1,543)
- 16 - Queensway (1,377)
- 17 - Dwyrain a De Gwersyllt (3,601)



- 18 - Gogledd Gwersyllt (1,995)
- 19 - Grosvenor (1,698)
- 20 - Marford a Hoseley (1,824)
- 21 - Maesydre (1,420)
- 22 - Pant (1,528)

- 23 - Stansty (1,641)
- 24 - Erddig (1,444)
- 25 - Acton (2,177)
- 26 - Hermitage (1,544)
- 27 - Garden Village (1,656)
- 28 - Gwentro (1,217)
- 29 - Little Acton (1,843)

32. Ynys Môn

- 32.1** Mae Atodlen 2 y Ddeddf yn mynnu bod etholaeth unigol yn cael ei chreu ar gyfer ardal Cyngor Sir Ynys Môn. Nid yw'r etholaeth hon yn ddarostyngedig i weithrediad cwota etholiadol statudol y Deyrnas Unedig.
- 32.2** Mae'r Comisiwn, felly, yn cynnig y dylid cadw etholaeth sirol bresennol Ynys Môn, yn cynnwys y wardiau etholiadol canlynol o fewn Sir Ynys Môn:
- Aethwy (5,175), Bro Aberffraw (3,023), Bro Rhosyr (3,919), Caergybi (5,504), Canolbarth Môn (6,537), Llifon (4,104), Lligwy (4,810), Seiriol (4,650), Talybolion (4,762), Twrcelyn (5,497) ac Ynys Gybi (4,434).
- 32.3** Byddai gan yr etholaeth hon 52,415 o etholwyr, sydd 28.6% islaw cwota etholiadol y DU, sef 73,393 o etholwyr fesul etholaeth. Yr enw a gynigir ar gyfer yr etholaeth yw **Ynys Môn**. Mae Ynys Môn yn enw a adnabyddir, a dyma'r enw etholaeth presennol a ddefnyddir yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r Comisiwn, felly, o'r farn fod yr enw hwn yn dderbyniol yn Gymraeg a Saesneg.

Ynys Môn



1 - Ynys Gybi (4,434)
2 - Caergybi (5,504)

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2021] OS [100047875]

Manylion cyhoeddi

Cyhoeddi'r cynigion cychwynnol

1. Mae'r cynigion a'r mapiau yn yr adroddiad hwn wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn yn: www.comffin-cymru.gov.uk ac ar borth ymgynghori'r Comisiwn yn: www.cffg-arolygon.org.uk. Anfonwyd copi o'r cynigion hyn at y prif gynghorau, Aelodau Seneddol a'r holl bleidiau gwleidyddol yng Nghymru.

Mannau adneuo

2. Yn Atodiad 3 i'r adroddiad hwn, mae'r Comisiwn yn rhoi'r cyfeiriadau ym mhob un o'r etholaethau seneddol arfaethedig lle bydd copi o'r cynigion hyn, a mapiau manylach sy'n eu dangos, ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio.

Y cyfnod ymgynghori cychwynnol: 8 Medi 2021 i 3 Tachwedd 2021

1. Mae'r Comisiwn yn dechrau ei ymgynghoriad cychwynnol nawr mewn perthynas â'i gynigion cychwynnol. Mae'r cyfnod ymgynghori cychwynnol yn dechrau ar 8 Medi 2021 ac yn dod i ben ar 3 Tachwedd 2021.
2. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, gall aelodau'r cyhoedd, grwpiau a sefydliadau ddarparu'u safbwyntiau yn ysgrifenedig ('cynrychiolaethau ysgrifenedig') ar unrhyw rai o gynigion cychwynnol y Comisiwn neu'r holl gynigion. Gellir gwneud cynrychiolaethau ysgrifenedig yn Gymraeg neu Saesneg, a gellir eu darparu i'r Comisiwn gan ddefnyddio un o'r ffyrdd canlynol:
 - defnyddio porth ymgynghori'r Comisiwn: www.cffg-arolygon.org.uk
 - drwy'r e-bost: cffg@ffiniau.cymru
 - drwy ffacs: 02920 464820
 - drwy'r post: Comisiwn Ffiniau i Gymru, Tŷ Hastings, Llys Fitzalan, Caerdydd, CF24 0BL.
3. Bydd y Comisiwn yn cydnabod derbyn yr holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a gyflwynir drwy unrhyw un o'r dulliau hyn.
4. Mae'r Comisiwn yn gofyn bod yr holl gynrychiolaeth ysgrifenedig yn nodi'n glir pa ardal neu ardaloedd o Gymru y maen nhw'n ymwneud â nhw. Hefyd, mae'r Comisiwn yn gofyn i unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n cyflwyno cynrychiolaethau ysgrifenedig i nodi'n glir p'un a ydynt yn cymeradwyo cynigion cychwynnol y Comisiwn, neu'n eu gwrthwynebu, ac i roi eu rhesymau dros eu cymeradwyo neu eu gwrthwynebu.
5. Mae'r Comisiwn yn argymhell, os ydych chi'n unigolion, grwpiau neu sefydliadau yn cyflwyno cynrychiolaethau ysgrifenedig yn gwrthwynebu cynigion y Comisiwn, y dylai'r cynrychiolaethau hynny gynnwys gwrthgynigion. Mae gwrthwynebiad gyda gwrthgynnig dichonadwy yn debygol o fod yn fwy dylanwadol na datganiad o wrthwynebiad syml. At hynny, oherwydd y gofyniad bod rhaid i nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth arfaethedig fod o fewn yr amrediad statudol, mae'r Comisiwn wedi

gorfod paratoi ei gynigion ar sail Cymru gyfan. Bydd hyd yn oed newidiadau cymharol fân i ffiniau mewn un etholaeth yn cael effeithiau canlyniadol mewn etholaethau eraill. Yn unol â hynny, bydd gwrthgynnig sy'n mynd i'r afael â chyfansoddiad pob etholaeth yr effeithir arni yn cael ei weld gan y Comisiwn fel un sy'n fwy darbwyllog na chynnig sy'n mynd i'r afael â chyfansoddiad un etholaeth yn unig, heb fynd i'r afael ag unrhyw ganlyniadau ar etholaethau eraill.

6. Dymuna'r Comisiwn bwysleisio bod ei gynigion cychwynnol yn ymwneud â'r etholaethau seneddol yng Nghymru yn unig. Nid ydynt yn effeithio ar etholaethau'r Senedd. Nid ydyntychwaith yn effeithio ar ffiniau prif gynghorau, wardiau etholiadol na ffiniau cymunedol, trethi neu wasanaethau. Felly, ni fydd y Comisiwn yn ystyried unrhyw gynrychiolaeth yn ymwneud â'r ystyriaethau hynny. Hefyd, dymuna'r Comisiwn bwysleisio na fydd yn ystyried unrhyw gynrychiolaethau, na rhannau o gynrychiolaethau, lle gwneir sylwadau ar nifer y seddi seneddol a ddyrennir i Gymru na'r amrediad etholwyr statudol. Pennwyd y rhain gan y Senedd, ac ni all y Comisiwn eu newid.
7. Ni fydd y Comisiwn yn ystyried cynrychiolaethau a dderbynnir y tu allan i'r cyfnod ymgynghori cychwynnol, ac eithrio lle cyflwynir y cynrychiolaethau hynny yn ystod camau dilynol o arolwg 2023. Felly, mae'r Comisiwn yn gofyn am i'r holl gynrychiolaethau ysgrifenedig mewn ymateb i ymgynghoriad cychwynnol y Comisiwn gael eu gwneud o fewn y cyfnod wyth wythnos, sef 8 Medi 2021 i 3 Tachwedd 2021.
8. Disgrifir y camau dilynol o arolwg 2023 yn nogfen y Comisiwn 'Canllaw i'r Arolwg 2023', sydd ar gael ar wefan y Comisiwn yn: www.comffin-cymru.gov.uk

Cyhoeddi cynrychiolaethau

9. Mae'r Ddeddf yn pennu bod rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi cynrychiolaethau y mae'n eu derbyn yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol (yn ogystal ag yn ystod camau dilynol o arolwg 2023).

10. Er mwyn diogelu preifatrwydd unigolion sy'n cyfranogi yn arolwg 2023, bydd y Comisiwn yn mabwysiadu'r ymagwedd ganlynol o ran golygu gwybodaeth bersonol a gynhwysir yn y cynrychiolaethau ysgrifenedig y mae'r Comisiwn yn eu cyhoeddi.
11. Cynrychiolaethau gan bobl gyhoeddus a swyddogion cyhoeddus (fel cynghorwyr, Aelodau Seneddol neu Aelodau'r Senedd) sy'n gweithredu mewn rhinwedd swyddogol:
- bydd y Comisiwn yn cyhoeddi enw unrhyw unigolyn neu swyddog cyhoeddus sy'n ysgrifennu mewn rhinwedd swyddogol
 - fodd bynnag, caiff yr holl gyfeiriadau post ac e-bost, rhifau ffôn a llofnodion eu golygu
12. Cynrychiolaethau gan aelodau'r cyhoedd, a chan unigolion cyhoeddus neu swyddogion cyhoeddus sy'n ysgrifennu mewn rhinwedd bersonol:
- bydd y Comisiwn yn golygu enwau a chyfeiriadau post unigolion sy'n cyflwyno cynrychiolaethau, ond bydd yn cyhoeddi amcan o leoliad cyfeiriad post yr unigolyn - hynny yw, trwy gyfeirio at y pentref, tref neu ddinas a nodwyd
 - bydd yr holl gyfeiriadau e-bost, rhifau ffôn a llofnodion yn cael eu golygu
13. Hefyd, bydd y Comisiwn yn golygu unrhyw beth mewn cynrychiolaeth a allai fod yn anghyfreithlon, yn enllibus neu'r ddau.
14. Mae 'Polisi diogelu data a phreifatrwydd' y Comisiwn yn rhoi gwybodaeth am sut fydd y Comisiwn yn prosesu data personol unigolion sy'n cyfranogi yn arolwg 2023. Gellir gweld hwn yn: <https://comffin-cymru.gov.uk/tudalen/polisi-diogelu-data-phreifatrwydd>

Y Gymraeg

15. Mae'r Comisiwn yn ymroddedig i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, ac yn croesawu gohebiaeth yn y ddwy iaith.

Pennod 9:

Gwybodaeth ychwanegol

Hawlfraint y Goron

1. Darparwyd y mapiau manwl, sydd ar gael yn y mannau adneuo, gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru dan drwydded gan yr Arolwg Ordnans. Mae'r mapiau manwl hynny, a'r mapiau sy'n ffurfio rhan o'r ddogfen hon, yn destun Hawlfraint y Goron. Bydd unrhyw atgynhyrchu anawdurdodedig yn torri Hawlfraint y Goron, a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Dylai golygydd unrhyw bapur newydd sy'n dymuno defnyddio'r mapiau fel rhan o erthygl am y cynigion cychwynnol gysylltu â'r Swyddfa Hawlfraint yn yr Arolwg Ordnans yn gyntaf.

Ymholiadau

2. Pe bai angen rhagor o wybodaeth arnoch am gynigion cychwynnol y Comisiwn, neu am agweddau eraill ar waith y Comisiwn, cysylltwch â:

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Tŷ Hastings

Llys Fitzalan

Caerdydd

CF24 0BL

Ffôn: 029 2046 4819

Ffacs: 029 2046 4820

E-bost: cffg@ffiniau.cymru

Gwefan: www.comffin-cymru.gov.uk

Atodiad 1:

Cynigion cychwynnol: etholaethau

Enw'r etholaeth	Enw amgen	Nifer etholwyr	Amrywiant o UKEQ
Aberafan Porthcawl		76,792	4.6%
Aberconwy		69,909	-4.7%
Alyn and Deeside	Alun a Glannau Dyfrdwy	74,144	1.0%
Blaenau Gwent and Rhymney	Blaenau Gwent a Rhymni	71,079	-3.2%
Brecon and Radnor	Aberhonddu a Maesyfed	72,113	-1.7%
Bridgend	Pen-y-bont	74,388	1.4%
Caerfyrddin	Carmarthen	70,606	-3.8%
Cardiff Central	Canol Caerdydd	74,486	1.5%
Cardiff North	Gogledd Caerdydd	71,143	-3.1%
Cardiff South and Penarth	De Caerdydd a Phenarth	70,246	-4.3%
Cardiff West	Gorllewin Caerdydd	73,947	0.8%
Ceredigion Preseli		76,269	3.9%
Clwyd		76,380	4.1%
Delyn		76,074	3.7%
Dwyfor Meirionnydd		71,962	-1.9%
Islwyn		70,735	-3.6%
Llanelli		71,972	-1.9%
Merthyr Tydfil and Aberdare	Merthyr Tudful ac Aberdâr	71,218	-3.0%
Mid and South Pembrokeshire	Canol a De Sir Benfro	74,614	1.7%
Monmouthshire	Sir Fynwy	72,681	-1.0%
Montgomeryshire and Glyndwr	Maldwyn a Glyndŵr	72,363	-1.4%
Newport East	Dwyrain Casnewydd	76,159	3.8%
Newport West and Caerphilly	Gorllewin Casnewydd a Chaerffili	74,394	1.4%
Pontypridd		71,237	-2.9%
Rhondda		71,684	-2.3%
Swansea Central and North	Canol a Gogledd Abertawe	76,199	3.8%

Enw'r etholaeth	Enw amgen	Nifer etholwyr	Amrywiant o UKEQ
Swansea East and Neath	Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd	75,641	3.1%
Swansea West and Gower	Gorllewin Abertawe a Gŵyr	75,214	2.5%
Torfaen		70,591	-3.8%
Vale of Glamorgan	Bro Morgannwg	70,426	-4.0%
Wrexham	Wreccsam	75,596	3.0%
Ynys Môn		52,415	-28.6%

Atodiad 2:

Mynegai etholaethau presennol

Etholaeth bresennol	Rhif tudalen
Aberavon	17, 93
Aberconwy	20
Alyn and Deeside	23
Arfon	20, 57
Blaenau Gwent	26
Brecon and Radnorshire	29
Bridgend	17, 32
Caerphilly	26, 60, 66, 81
Cardiff Central	38
Cardiff North	41
Cardiff South and Penarth	38, 43
Cardiff West	46
Carmarthen East and Dinefwr	35, 63
Carmarthen West and South Pembrokeshire	35, 69
Ceredigion	48
Clwyd South	23, 75, 103
Clwyd West	20, 51, 54
Cynon Valley	66, 84
Delyn	23, 54
Dwyfor Meirionnydd	57

Etholaeth bresennol	Rhif tudalen
Gower	90, 93, 96
Islwyn	26, 60
Llanelli	63
Merthyr Tydfil and Rhymney	26, 66
Monmouth	72, 99
Montgomeryshire	75
Neath	29, 93
Newport East	72, 78
Newport West	78, 81
Ogmore	32, 87
Pontypridd	41, 46, 84, 87
Preseli Pembrokeshire	48, 69
Rhondda	87
Swansea East	90, 93
Swansea West	90, 96
Torfaen	99
Vale of Clwyd	51, 54
Vale of Glamorgan	43, 102
Wrexham	103
Ynys Môn	106

Atodiad 3:

Mannau adneuo

Etholaeth arfaethedig	Cyfeiriad man adneuo
Aberafan Porthcawl	Swyddfeydd y Cyngor, Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ
Aberconwy	Canolfan Ddiwylliant Conwy, Town Ditch Road, Conwy, LL32 8NU
Alun a Glannau Dyfrdwy	Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe CH5 3FF
Blaenau Gwent a Rhymni	Y Swyddfeydd Cyffredinol, Heol Gwaith Dur, Glynebwy NP23 6DN
Aberhonddu a Maesyfed	Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Cambrian, Aberhonddu LD3 7HR Neuadd y Sir, Llandrindod LD1 5LG Llyfrgell a Chanolfan Gymunedol Trefyclo, Lawnt Fowlio, Trefyclo, Powys LD7 1DR
Pen-y-bont	Swyddfeydd y Ddinas, Stryd yr Angel, Pen-y-bont CF31 4WB Llyfrgell Maesteg, North Lane, Maesteg CF34 9AA Llyfrgell Pencoed, Pen-y-bont Road, Pencoed CF35 5RA
Caerfyrddin	Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Caerfyrddin, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin, SA31 1LE Gwasanaethau Statudol, Bloc 4, Parc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin SA31 1HQ
Canol Caerdydd	Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW
Gogledd Caerdydd	Llyfrgell yr Eglwys Newydd, Park Road, Yr Eglwys Newydd CF14 7XA
De Caerdydd a Phenarth	Hyb Grangetown, Havelock Place, Grangetown CF11 6PA Llyfrgell Penarth, Stanwell Road, Penarth CF64 2YT
Gorllewin Caerdydd	Llyfrgell Canton, Library Street, Canton CF5 1QD
Ceredigion Preseli	Llyfrgell Aberaeron, Neuadd y Sir, Aberaeron, SA46 0AT
Clwyd	Colwyn Bay Library, Woodland Road West, Colwyn Bay, LL29 7DH Llyfrgell Y Rhyl, Stryd yr Eglwys, Y Rhyl LL18 3AA
Delyn	Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun LL15 1YN Neuadd y Sir, yr Wyddgrug CH7 6NB
Dwyfor Meirionnydd	Neuadd y Sir, Caernarfon LL55 1SH Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd y Cob, Pwllheli LL53 5AA Swyddfeydd y Cyngor, Cae Penarlâg, Dolgellau LL40 2YB

Etholaeth arfaethedig	Cyfeiriad man adneuo
Islwyn	Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7PG Llyfrgell Coed-duon, 192 High Street, Coed-duon NP12 1AJ
Llanelli	Llyfrgell Llanelli, Llanelli SA15 3AS
Merthyr Tudful ac Aberdâr	Llyfrgell Ganolog, Stryd Fawr, Aberdâr CF44 7AG Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful CF47 8AN
Canol a De Sir Benfro	Gwasanaethau Etholiadol, Uned 23 Ystâd Ddiwydiannol Thornton, Aberdaugleddau, Sir Benfro SA73 2RR Llyfrgell Glan-yr-Afon, 20 Swan Square, Hwlfordd SA61 2AN
Monmouthshire	Llyfrgell Y Fenni, Stryd Baker, Y Fenni NP7 5BD Hyb Cymunedol Mynwy, Rolls Hall, Trefynwy NP25 3BY Hyb Cymunedol Cas-gwent, Manor Way, Cas-gwent NP16 5HZ Llyfrgell Gilwern, Canolfan Addysg Gymunedol, Common Road, Gilwern NP7 0DS Hyb Cymunedol Brynbuga, 35 Stryd Maryport, Brynbuga NP15 1AE Hyb Cymunedol Cil-y-coed, Woodstock Way, Cil-y-coed NP26 5DB
Maldwyn a Glyndŵr	Llyfrgell Llangollen, Y Capel, Stryd y Castell, Llangollen LL20 8NY Y Lanfa, The Canal Wharf, Y Trallwng, Powys SY21 7AQ Swyddfa Ardal, Swyddfeydd y Parc, Y Drenwydd SY16 2NZ
Dwyrain Casnewydd	Llyfrgell Ringland, 6 Canolfan Ringland, Casnewydd NP19 9HG
Gorllewin Casnewydd a Chaerffili	Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7PG Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR
Pontypridd	Gwasanaethau Etholiadol, Yr Hen Lys, Stryd y Llys, Pontypridd CF37 1JW
Rhondda	Swyddfeydd y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Cambrian, Cwm Clydach CF40 2XX
Canol a Gogledd Abertawe	Llyfrgell Treforys, Heol Treharne, Abertawe SA6 7AA Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN
Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd	Swyddfeydd y Cyngor, Y Ganolfan Ddinesig, Castell-nedd SA11 3QZ

Etholaeth arfaethedig	Cyfeiriad man adneuo
Gorllewin Abertawe a Gŵyr	Llyfrgell Gorseinon, 15 West Street, Gorseinon, Abertawe SA4 4AA Llyfrgell Tregŵyr, Stryd Mansel, Tregŵyr, Abertawe SA4 3BU
Torfaen	Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl NP4 6YB
Bro Morgannwg	Swyddfeydd Dinesig, Holton Road, Y Barri CF63 4RU
Wrecsam	Neuadd y Dref, Wrecsam LL11 1WF
Ynys Môn	Gwasanaethau Etholiadol, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW



Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg
I gysylltu a'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr waelod, Tŷ Hastings, Llys Fitzalan
Caerdydd, CF24 0BL

Ffôn: +44 (0)29 20464819
Ffôn: +44 (0)29 21055521
E-bost: cffg@ffiniau.cymru

© Hawlfraint y Goron 2021